# Y BIGWN

CYF. 35 RHIF 5 GORFFENNAF 2023 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# Gŵyl Ganol Haf Dinbych




Yr Athro Jerry Hunter Capel Lôn Swan tud 14



Ffion Clwyd,Gwawr Cordiner a'r nofelydd Haf Llywelyn tud 21



'Welsh Whisperer' Canolfan Iaith Clwyd tud 27




Erfyl a Hywel ar stondin Papurau Bro/Menter Iaith tud 16



Staff a ffrindiau Ysgol Twm o'r Nant ar daith gerdded noddedig tud 9

# Y Tri Digri yn dathlu 25 mlynedd



Dilwyn Pierce, John Sellers a Glyn Owens; isod un o'u sgets





Y Tri Digri yn derbyn cacen dathlu gan Dilys Macdonald a Gwyneth Kensler




Lladd gwair tud 29



Dinbych yn Blodeuo tud 25





Y canwr Tudur Wyn



Paned a Chân tud 23



Gwirfoddolwyr yn helpu i gad tref Dinbych yn lân erbyn diwrnod beirniadu

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**John Davies (dros dro)**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)
Llifon Jones (814677)
Gwenan Ellis (813106)

**YSGRIFENNYDD**
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

**TRYSORYDD**
Llifon Jones
Sŵn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifonjones9@gmail.com

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

**Golygydd Mis HYDREF**
**Dyfrig Berry**

# Gair gan y Golygydd

## DYFODOL Y BIGWN?

Fe gynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus i drafod dyfodol Y Bigwn yng Nghapel y Fron ar nos Lun Mehefin 12fed. Roedd deunaw yn bresennol, gyda thri ymddiheuriad wedi eu derbyn. Cyn symud ymlaen i unrhyw drafodaeth, manteisiwyd ar y cyfle i ddangos ein gwerthfawrogiad i Stan Lyall am ei holl waith dros nifer o flynyddoedd fel Golygydd, Cadeirydd, colofnydd misol a dosbarthwr. Peth braf yw cael gwybod ei fod yn fodlon parhau i sgwennu ei erthyglau difyr, a mynd o ddrws i ddrws efo copïau diweddaraf o'r Bigwn.

Prif bwrpas y cyfarfod oedd ceisio cael mwy o Olygyddion, gan fod gormod o bwysau ar y nifer fach o Olygyddion sydd gennym ar hyn o bryd. Cyn y cyfarfod roedd Gwenan Ellis wedi cytuno i olygu'r rhifyn hwn, ac yn ystod y cyfarfod cytunodd Llifon Jones i ymuno â'r Tîm Golygyddol. Diolch yn fawr i chi'ch dau!

Codwyd nifer o syniadau yn ystod y cyfarfod ond, yn anffodus, doedd dim enwau newydd yn codi i ymgymryd â'r gwaith golygu. Apeliodd un o'r Golygyddion ar i unigolion ymrwymo i gyfrannu erthygl rheolaidd (nid o anghenraid bob mis) er mwyn lleihau'r pwysau i chwilio am erthyglau, a cytunodd tri person wneud hynny. **GALLWCH CHI YMRWYMO I WNEUD HYN HEFYD?**

Nodwyd fod nifer o gymdeithasau a sefydliadau o fewn y dref ddim yn gyrru adroddiadau i'r Bigwn i ennyn diddordeb a rhoi cyhoeddusrwydd i'w gwaith. **YDYCH CHI'N PERTHYN I UN O'R RHAIN AC YN FODLON HELPU?**

Un awgrym diddorol a wnaethpwyd ar y noson oedd fod Y Bigwn yn cael ei gyhoeddi bob deufis, sef chwe rhifyn y flwyddyn yn hytrach na'r deg presennol. Penderfynwyd peidio dilyn y llwybr hwnnw ar hyn o bryd ond efallai i'w ystyried fel opsiwn arall yn y dyfodol.

Ar derfyn y cyfarfod cytunodd y Golygyddion oedd yn bresennol eu bod yn fodlon parhau â'r gwaith am y tro, ond bydd angen adolygu'r sefyllfa cyn diwedd y flwyddyn. Fe gymerwyd camau bach ymlaen ar y noson yn hytrach na'r camau mawr sydd eu hangen. Er enghraifft, ein dymuniad yw cael deg Golygydd, a dydy ni ddim yn agos at gyflawni hynny. Felly mae dyfodol Y Bigwn yn ddiogel yn y tymor byr, ond rhaid dweud fod y sefyllfa hir-dymor yn fregus iawn.

**Y FFAITH YDY FOD DYFODOL Y BIGWN YN NWYLO EIN DARLLENWYR – IE, CHI! – AC OS GALLWCH CHI EIN HELPU MEWN UNRHYW FFORDD, CYSYLLTWCH Â SIAN ROGERS AR siani77.sr@gmail.com NEU AR 07871 499483.**

DIOLCH YN FAWR.

John Davies (Cadeirydd dros dro)
Llifon Jones (Trysorydd)
Sian Rogers (Ysgrifennydd)

Er hyn oll, hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu i'r Bigwn, nid yn unig y mis yma, ond dros y flwyddyn hefyd. Rydym wir yn gwerthfawrogi. Diolch i chithau, ddarllenwyr, am eich cefnogaeth. Hyderaf y bydd rhywbeth at ddant pawb yn y rhifyn hwn!

**Gwenan**

**Dyddiad cau Y BIGWN mis Hydref**
**Pob dim i gyrraedd e-bost**
**Y Bigwn - gwybod@ybigwn.cymru erbyn Medi 22**

# Cyfarchion



Penblwydd hapus i Deio Lyall oedd yn 4 oed ar Fehefin 20. Cariad mawr oddi wrth Mam, Dad, Mared a'r teulu i gyd xxx



Penblwydd hapus iawn i Eiri ar 19eg o Orffennaf. Gobeithio gei di dathliadau wrth dy fodd.
Diolch am bopeth rwyt yn neud ini gyd. Pob dymuniad da
John.    Gwyn Ceri, Hari a Seth.   Nia, Sam ac Elen



Penblwydd hapus iawn i Sam fydd yn dathlu penblwydd arbennig ar 10 Awst. Mwynha'r dathlu, cariad mawr gan Nia, Elen a'r teulu i gyd!

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg
Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad    www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

# Holi a Stilio – Delyth Williams



Fy enw yw Delyth Williams, cefais fy ngeni yn ysbyty H M Stanley, byw ym Mhrestatyn a Dyserth ac yna symud i Bwllheli pan oeddwn i tua 6 oed. Dwi'n byw yn Ninbych ers 21 o flynyddoedd efo Alan a'r genod, Swyn a Lia, heb anghofio Begw y ci! Dwi'n athrawes Moeseg, Crefydd a Gwerthoedd (Addysg Grefyddol) yn ysgol Glan Clwyd ers mis Medi 1993!

**Beth ydy eich atgof cyntaf?**

Bwyta mecryll wedi ffrio yn nhŷ nain a taid yn Sarn.

**Pa dri lle sydd bwysicaf i chi?**

Pen Llŷn - teulu dal i fyw yn yr ardal, wrth ein boddau yn cael mynd yno i ymweld

Dyffryn Clwyd - dwi'n caru byw yn Ninbych, ffrindiau da, cymuned hyfryd ac yn aelod o ddau gôr - Rhuthun a Nantclwyd

Ble bynnag y cynhelir Eisteddfod yr Urdd! Wrth fy modd ymweld ag ardaloedd gwahanol o Gymru.

**I ble fyddwch chi'n mynd ar eich gwyliau?**

Dwi ddim wir yn berson gwyliau dwi ddigon hapus aros adra! Wythnos yn yr Eisteddfod Genedlaethol neu 'da ni yn hoff iawn o fynd i'r Alban neu Ben Llŷn.

**Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?**

Dwi'n cofrestru dosbarth o ddisgyblion hyfryd ym mlwyddyn 7 eleni, a bob bora dwi'n cael straeon am eu hynt a'u helyntion. Dwi di dysgu gymaint am bluo twrcwn at y 'Dolig, dipio defaid a chneifio, pysgota a gwylio sied y defaid ar i ffonau symudol yn ystod cyfnod wyna - addysg go iawn i hogan dre!

**Pryd oedd y tro diwethaf i chi grio?**

Fel mae'n digwydd, nes i grio bora 'ma yn gweld llun babi newydd efo'i daid a hefyd wrth ffarwelio efo myfyrwraig hyfryd sydd wedi bod efo fi ers mis Ionawr - dwi'n casáu ffarwelio!

**Pa fath o gerddoriaeth ydach chi'n ei hoffi?**

Dwi wrth fy modd efo pob math o gerddoriaeth ac wrth fy modd yn canu ers yn blentyn bach! Mae bod yn aelod o gôr yn rhan fawr iawn, iawn o'm mywyd i ers cyfnod Côr yr Urdd ym Mhwllheli, Côr Penyberth efo Nan Ellis ac yn cael modd i fyw ar hyn o bryd yn paratoi i gystadlu at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan.

**Oes yna rywbeth sy'n codi braw arnoch chi?**

Pan dwi'n sylweddoli mod i wedi bod yn gweithio yn yr un ysgol, yr un ystafell ddysgu am 30 o flynyddoedd mae hynny yn rhoi braw i mi! Er yr holl newidiadau, plant di plant ac mae gen i gyd-weithwyr hyfryd (er yn ifanc iawn!) sy'n gwneud y profiad o fynd i'r gwaith yn bleserus!

**Oes gennych chi uchelgais, neu oes yna rywbeth y byddech chi'n hoffi ei wneud yn y deng mlynedd nesaf?**

Bod yn hapus ac yn iach ac yn bendant mewn llai na deg mlynedd - ymddeol!

**Beth sydd wedi achosi'r embaras mwyaf i chi?**

Dwi'n cofio mynd i barti ym Mhlasgwyn, Pentrefelin pan oeddwn i tua 17 oed a cherdded drwy ganol y llawr dawnsio efo fy sgert yn sownd yn nhop fy nheits ar ôl bod yn y ty bach! Dal i gochi yn meddwl amdano!

**Maen nhw'n dweud fod pobl yn dewis anifeiliaid anwes sy'n debyg iddyn nhw. Oes gennych chi anifail anwes? Pa fath?**

Er mawr syndod a rhyfeddod i bawb sy'n fy adnabod, mi gawsom ni gi yn ystod y cyfnod clo! Cockapoo lliw apricot ydi Begw ac mai fatha trydedd plentyn i ni ac yn cael ei thrin fel tywysoges! Mae pawb di gwirioni efo hi, mae hi wedi dod a chymaint o bleser a hwyl i tŷ ni!

**Pa un yw eich hoff raglen deledu?**

Heb unrhyw amheuaeth Rownd a Rownd!

**Sut fyddwch chi'n treulio eich oriau hamdden?**

Dwi yn caru siopa, yn anffodus i'r cyfrif banc! Mae gen i ddiwrnod i ffwrdd bob dydd Gwener ac unai yn cael gwneud fy ngwallt neu fy ngwinedd neu'n mynd am ddiwrnod allan efo'r genod - i siopa!

**Mae Llywodraeth Cymru angen eich help i redeg y wlad. Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i Mark Drakeford?**

Hoffwn weld rheolau'n cael eu creu i wneud hi'n haws i bobl ifanc allu aros yn eu bro enedigol a hefyd i allu fforddio prynu tai.

**Beth sy'n dân ar eich croen?**

Pobl sydd ddim yn codi baw ci a hefyd pobl sy'n gadael eu cwn am dro heb dennyn - dwi ofn bob ci 'blaw am Begw a Beti ei ffrind gorau!!

**Beth fyddai eich swydd ddelfrydol?**

Gweithio mewn siop trin gwallt. Pan yn fach mi ro ni eisiau gweithio fel cigydd!

**Ydych chi'n siopa ar y we, ac os ydych chi, pa fath o bethau fyddwch chi'n eu prynu?**

Dwi'n meddwl bod yr ateb yma am fod yn eithaf amlwg - yndw!! Prynu gormod o bob math o bethau! Mae gyrwyr cwmnïau danfon yn gwybod yn iawn lle mae ty ni!

**Ydach chi wedi rhoi lliw yn eich gwallt erioed?**

Ydw, ers blynyddoedd ond dim byd eithafol!

**Oes gennych chi datŵ neu fyddech chi'n cael un? Os felly, tatŵ o beth?**

Oes! Mae gen i a Swyn datŵ o'r gair 'cariad' ar gefn ein ffêr.

**Pwy ydy'r person mwyaf diddorol ydych chi'n/ wedi ei adnabod?**

Nain Sarn. Bu farw nain yn 97 oed yn 2019 a hi oedd y person mwyaf diddorol yn llawn haelioni gyda'i chyngor doeth i bawb. Dynas hyfryd oedd eisiau helpu pawb, roedd yn gallu gwneud y tost gorau efo'i bara ffresh, torri crystiau a mynd a fo allan i'w chwifio am bo Delyth Mai yn licio tost oer ac wrth gwrs menyn go iawn!

**Beth ydi'r peth gorau sydd wedi digwydd i chi erioed?**

Cyfarfod Alan, magu ein merched Swyn, 23 a Lia, 18 a heb anghofio y trysor arbennig - Begw fach!

Siop Clwyd
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a Chrefftau
siopclwyd@yahoo.co.uk

BWRDD CRWN DINBYCH AR CYFFINIAU
DENBIGH AND DISTRICT
ROUNDTABLE
GREAT BRITAIN AND IRELAND

## Bwrdd Crwn (Roundtable) Dinbych a'r Cyffiniau

Sefydliad ar gyfer dynion 'ifanc' rhwng 18 a 45 oed sy'n cymdeithasu a chodi arian at achosion da yw'r Bwrdd Crwn (y 'Roundtable'). Efallai bod rhai ohonoch yn ymwybodol ohonom drwy'r Ŵyl Gwrw blynyddol ym mis Medi yn Neuadd y Dre' Dinbych (bydd eleni yn cael ei gynnal ar ddydd Sadwrn yr 16eg o Fedi felly cadwch eich dyddiaduron yn glir!), a'r Fflôt Siôn Corn o amgylch Dinbych a'r pentrefi cyfagos pob mis Rhagfyr. Rydym wedi bod yn weithgar ers nifer o flynyddoedd.

Rydym yn cwrdd bob pythefnos gydag amryw o weithgareddau diweddar yn cynnwys taith o amgylch chael ger Loggerheads, gornest 'Slot Cars' yng nghanolfan Eirianfa o dan oruchwyliaeth Clwb Slot Cars Gogledd Cymru sy'n cwrdd yno'n wythnosol, a fwya' diweddar aethom i Rafftio Dŵr Gwyn yn Llangollen – ffordd dda o 'cwlio lawr' yn y tywydd poeth diweddar! Cost aelodaeth yw £30 y mis, sydd yn talu am y gweithgareddau. Yn ogystal â'r mwynhau amlwg, rydym yn ymwybodol hefyd bod gennym gyfrifoldeb pwysig o gefnogi elusennau ac achosion da lleol yn sgil haelioni trigolion lleol. Mae'r Ŵyl Gwrw a'r 'Fflôt Siôn Corn' yn gyfrifol am godi symiau sylweddol o arian ar gyfer rhain ac rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer cymorth posib. Yn ystod 2022/23 roeddem yn falch o gyfrannu dros £11,000 at achosion da, gyda'r mwyafrif yn rai lleol ac yn awyddus i wneud yr un peth eto eleni.




Os oes gennych chi ddiddordeb mewn gwybod mwy am 'Roundtable' Dinbych a'r Cyffiniau – fel aelod posib, os oes gennych ddiddordeb mewn gwybod mwy am ein gwaith neu os ydych yn awyddus i wneud cais am arian mae croeso i chi gysylltu â mi ar sionwynne@hotmail.com neu 07810524898. Cewch hefyd hyd i ni ar ein tudalen Facebook drwy chwilio am Bwrdd Crwn Dinbych a'r Cyffiniau.

Diolch!

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyfforddd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Cylch Llenyddol Glannau Clwyd



Meinir Pierce Jones ddaeth atom i gau pen y mwdwl ar raglen gyfredol y Cylch. Testun Meinir oedd ‘Sgrifennu Nofel Hanes’, ac am noson ddifyr a gawsom yn ei chwmni wrth iddi ddisgrifio sut iddi fynd ati i lunio ei nofel wych ‘Capten’. Enillydd Gwobr Goffa Daniel Owen Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, wrth gwrs.

Cafodd Meinir ei hysbrydoli gan sawl un, yn cynnwys y nofelydd enwog Hilary Mantell, y croniclwr morwrol adnabyddus, Aled Eames, ynghyd ag Anti Neli, hanesydd answyddogol y teulu y treuliodd Meinir oriau lawer yn ei chwmni’n trafod sawl un o gymeriadau’r nofel.

Cawsom ein cyfareddu gan frwdfrydedd Meinir am ei phwnc, a rhyfeddol oedd clywed manylder yr ymchwil a gyflawnodd yn ystod y blynyddoedd y bu wrthi’n datblygu ac yn ysgrifennu’r nofel afaelgar hon. Bu’n ymchwilio’r cyfnod morwrol yn Nefyn ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg am gryn dipyn o amser, ac yn rhinwedd ei swydd yn bennaeth ac yn sylfaenydd Amgueddfa Forwrol Nefyn, roedd hi mewn sefyllfa dda i wneud hynny! Difyr hefyd oedd clywed am yr ymchwil ymarferol a wnaeth hefyd, yn cynnwys cyfnod yn criwio ar long ger Ynysoedd Canaria.

Ac yna cyfnod clo Cofid ar ddechrau’r ddegawd a’i galluogodd hi i eistedd i lawr yn ddisgybledig i gwblhau ei champwaith ‘Capten’, a’i anfon at yr Eisteddfod. Ar ddiwedd sgwrs Meinir, cawsom gyfle nid yn unig i’w holi, ond roedd hi hefyd wedi dod â rhai o’r creiriau teuluol i ni gael eu gweld. Noson wych yn goron ar dymor difyr a hwyliog arall o’r Cylch.

Bydd y Cylch yn ail ddechrau cyfarfod nos Lun, 2 Hydref, pan fydd Dr Goronwy Wynne yn trafod ‘Daniel Owen a Iaith Sir Fflint’. Yna Alun Williams, y naturiaethwr lleol, fydd yn dod atom a’i bwnc fydd ‘Mynydd Hiraethog’ (6 Tachwedd). Teitl sgwrs Dr Peredur Glyn, awdur ‘Pumed Gainc y Mabinogi’ fydd ‘Y Mabinogi: chwedlau hudolus ddoe, ffuglen arswydus heddiw’ (4 Rhagfyr). Unwaith eto, merched fydd ein gwesteion yn ystod ail hanner y rhaglen a’r flwyddyn newydd. Gwenan Gibbard sy’n dod atom i drafod ‘Caneuon Gwerin Llŷn ac Eifionydd’ gyntaf (8 Ionawr), Mari Emlyn fydd efo ni nos Fawrth (yn wahanol i’r nos Lun arferol, noder) 6 Chwefror a’i phwnc fydd ‘Awduron o’r Iawn Ryw’. Yna i gloi’r rhaglen nos Lun, 8 Ebrill, ein gwestai fydd Mererid Hopwood a’i phwnc fydd ‘Tynnu Lluniau gyda Geiriau’. Gwledd yn wir!

Y cyfarfodydd i’w cynnal ar nosweithiau Llun (heblaw yn Chwefror), am 7pm yng Nghapel Trefnant (LL16 5UG), a chewch dalu £15 am ddod i’r cyfan o’r cyfarfodydd neu £4 y ddarlith. Croeso cynnes i bawb!



# Eglwys Unedig Fron a’r Brwcws

Bore Sul, Mai 28ain, yr oedd yn braf iawn cael cwmni aelodau’r Fro dan ofal ein Gweinidog. Fe wnaeth Gwilym Williams, Llywydd y Mis estyn croeso i bawb a’r organydd oedd Iona Edwards. Y Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn oedd gyda ni bore Sul, Mehefin 4ydd gyda Wendy Lloyd Jones yn llywyddu ac fe wnaeth ei groesawu a diolch iddo ac i Eiri Jones am ei gwaith wrth yr organ. Gweinyddwyd y Cymun gan ein Gweinidog bore Sul, Mehefin 11eg yn y Capel Mawr ac ef hefyd oedd gyda ni yn y Fron Mehefin 18fed gyda Iona Edwards yn cyfeilio.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Megan Williams sydd wedi dod yn Hen Nain i Elin Haf, merch Elgan a Sarah.

Yr ydym fel Eglwys yn anfon ein cofion at Jois Snelson sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd a hefyd yn Inffirmari Dinbych.

Y mae Cymdeithas y Chwiorydd, ond sydd erbyn rŵan wedi newid yr enw i ‘Y Gorlan’ wrth fod rhai o’r brodyr yn awyddus i fynychu’r cyfarfodydd, wedi trefnu rhaglen amrywiol ar gyfer y tymor nesaf fydd yn dechrau prynhawn dydd Mercher, Medi 20fed am 2 o’r gloch gyda Te Prynhawn a sgwrs ac mi fydd croeso i unrhyw un fynychu. Diolch yn fawr iawn i Wendy am ymgymryd â’r gwaith o fod yn ysgrifennydd am y tymor.

Snow In Summer
33 Stryd y Dyffryn, Dinbych
LL16 3AH

Siop leol yn gwerthu cardiau, anrhegion a phethau vintage

DenbighSnowInSummer
@Snowinsummer_shop
@snowinsummer33



# Ysgol Glan Clwyd

**Llwyddiant Cenedlaethol**



Llongyfarchiadau mawr i Hawys Owen-Casey ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth creu Tecstilau BL.7/8/9 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, ac i Jacob Jones ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Creadigol 2D BL.7/8/9 ac yn y gystadleuaeth creu tudalen gomic bl7/8/9. Hefyd daeth Erin Plumb yn ail drwy Gymru yn y gystadleuaeth Cogurdd i fl10-13. Tipyn o gamp!





**Ffarwelio â Blwyddyn 13**

Cafwyd seremoni i ffarwelio â bl13 wrth i'w cyfnod yn Ysgol Glan Clwyd ddod i ben. Hyfryd oedd gallu manteisio ar yr haul a chael cynnal y seremoni yn yr awyr agored yn yr amphitheatr. Ac ar gyfer yr achlysur, cafwyd cacen arbennig â llun y flwyddyn arni! Dymunwn y gorau i bob un ohonynt yn y bennod nesaf o'u bywyd.

**Taith Celfyddydau Mynegiannol**

Cafodd criw Cerdd a Drama TGAU a Safon Uwch deithio i Lerpwl i wylio perfformiad o sioe newydd sbon gan y National Theatre sef *Ocean At The End Of The Lane*. Mae hon yn sioe sy'n teithio ledled Prydain ac yn sicr roedd yn brofiad theatrig cyffrous i'n disgyblion.

**Clwb Natur**

Mae'r clwb natur wedi bod yn brysur yn gweithio ar yr ardd. Roedd y clwb yn ffodus i gael gwrando ar sgwrs gan Mr Jenkins am blanhigyn tomato a sut i ofalu amdanynt.

Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn codi arian ac wedi ariannu'r holl blanhigion eu hunain ac yn ddiolchgar o fod wedi derbyn rhodd gan yr athrawon.

**Y Cyngor Ysgol yn gofalu am ein cymuned**

Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn weithgar iawn yn ystod y flwyddyn academaidd wrth arwain ar lais y disgybl. A ninnau yn y trydydd tymor, daeth rhai o'r syniadau a gynigiwyd yn y ddau dymor cyntaf i fodolaeth wrth i ddwy ffynnon ddŵr newydd gael eu gosod mewn mannau allweddol o'r ysgol. Heb os, dyma amseru da ar gyfer tywydd braf yr haf.

Ar yr un pryd, fel rhan o wella amgylchedd yr ysgol mae criwiau hel sbwriel wedi bod yn rhannu'r faich o gasglu ar ddiwedd yr awr ginio ac mae hyn wedi bod yn weithgaredd poblogaidd iawn. Pam medde chi? Oherwydd fod cystadleuaeth ynghlwm â hyn gan fod y bag sbwriel yn cael ei bwyso a chynghrair wedi'i sefydlu sy'n gwobrwyo'r grwp sy'n casglu fwyaf. Diolch arbennig i'r criw bechgyn bl10 am ddangos eu sgiliau arweinyddiaeth wrth arwain ar y gweithgaredd hwn ar y dechrau.





**Gemau Rhyng-Ysgol**

Mae'n parhau i fod yn brysur gyda'r cystadlaethau a'r gemau rhyng-ysgol gan yr Adran Addysg Gorfforol. Llongyfarchiadau i'r criw fu'n cystadlu ar yr athletau yn ddiweddar yng nghystadleuaeth Sir Ddinbych. Dyma oedd y canlyniadau:

Merched bl 8 a 9 - 1af
Bechgyn bl 8 a 9 - 1af
Merched bl 10 - 2il
Bechgyn bl 10 - 3ydd

Cafodd merched blwyddyn 7-9 fwynhau chwarae gemau cyfeillgar pel-droed a phêl-rwyd yn erbyn Ysgol Dinas Bran tra bod merched bl7-8 wedi mwynhau gêm bêldroed yn erbyn Ysgol Uwchradd Y Rhyl.

# Ysgol Twm o'r Nant





Gyda gwyliau haf ar y gorwel, mae hi wedi bod yn fis prysur arall yn yr ysgol. Mae ymarferion at y mabolgampau yn fwrlwm ar y cae, a thripiau i bob uned wedi eu trefnu.
Bu staff yr ysgol yn cymryd rhan mewn taith gerdded noddedig diwedd mis Mehefin. Bydd inni gerdded o gwmpas llynnoedd Brenig a'r Alwen er mwyn codi arian tuag at achos sydd yn agos iawn at ein calonnau yn yr ysgol ar hyn o bryd, sef Ward y plant yn Ysbyty Glan Clwyd.
Dymuniadau gorau i Miss Bethan Jones a Miss Sioned Williams sydd yn priodi dros wyliau'r haf. Pob lwc i'r ddwy ohonoch a gobeithio bydd yr haul yn tywynnu ar eich diwrnodau arbennig.

**Uned dan 5**

Wel dyma ni ar drothwy ein tymor olaf eleni yn yr Uned Dan 5. I lle aeth y flwyddyn?! Mae hi'n gyfnod o baratoi ar gyfer symud i fyny i flwyddyn newydd ynghyd a chroesawu teuluoedd a disgyblion newydd.



Cafodd y dosbarth Derbyn gyfle i fynd ar drip i Fferm Rhug. Roedd pawb yn wen o glust i glust wrth fynd ar y tractor a threlar i weld y gwartheg, am hwyl! Wedi i'r plant ddychwelyd, cafodd bawb greu ac yn bwysicach byth flasu byrgyr blasus! Roedd platiau pawb yn lan! Cawsom groeso cynnes gan holl staff Rhug, diolch am ddiwrnod werth chweil!



Aethom am dro i Lyfrgell Dinbych. Cawsom groeso cynnes iawn gan staff y llyfrgell. Bu'r plant yn gwrando'n astud ar storïau. Cafodd pawb ddewis llyfr i'w fenthyg a mwynhau diod a bisged cyn cerdded yr holl ffordd yn ôl i'r ysgol! Roedd staff y llyfrgell yn diolch i'r holl blant am fod mor gwrtais. Edrychwn ymlaen at gyflawni'r sialens ddarllen yr haf yn ystod gwyliau'r haf.



Ein thema hanner tymor yma ydy 'Ar lân y Môr', Mae'r plant yn mwynhau dysgu am dymor yr haf yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r thema. Ahoi!



Hoffwn ddymuno yn dda i Miss Sioned Williams sydd yn priodi yn ystod gwyliau Haf! Llongyfarchiadau mawr gan bawb yn yr Uned Dan 5!

**Uned dan 7**



Cafodd plant yr Uned Dan 7 ddiwrnod i'r brenin ar eu trip ysgol diwedd y flwyddyn. Er mwyn dathlu diwedd ein thema 'Yn yr Ardd' ac ein cyfnod ym mlwyddyn 1 a 2, aethom i Pili Palas yn Sir Fôn. Cawsom fore hyfryd yn crwydro'r safle yn gweld amrywiaeth o anifeiliaid a thrychfilod







. Yna, yn y prynhawn cawsom bicnic tu allan a llawer o hwyl yn y parc antur ardderchog. Roedd y plant wedi gwirioni ac wedi ymddwyn yn arbennig o dda.

**Uned dan 9**

Rydym wedi cyrraedd wythnosau olaf y tymor, ac mae hi'n hanner tymor prysur iawn.

Croesawyd awdur enwog Oliver Sykes i'r uned i gynnal gweithdy ysgrifennu creadigol gyda'r plant. Cawsant eu hysbrydoli i feddwl ar sut i ddechrau stori gyda phrofiadau personol yn thema iddynt. Yn y prynhawn, perfformiodd Oliver ei sioe un dyn allan o'i lyfr sydd wedi ennill gwobr yn ddiweddar sef Alfie's Best Fight. Cyflwynwyd copïau wedi arwyddo o'r llyfr i'r plant oedd wedi dewis prynu un. Braf oedd gweld y plant wedi mwynhau eu diwrnod yn fawr.

Cawsom fynd i Theatr Twm o'r Nant i wylio ffilm fel rhan o wythnos gŵyl ffilmiau. Roedd nifer o'r plant wedi gwirioni cael camu i mewn i'r theatr ac yn brofiad cyntaf i nifer.

Wrth i mi ysgrifennu'r pwt yma rydym yn brysur iawn yn ymarfer tuag at ein mabolgampau. Yn anffodus bu rhaid gohirio ein diwrnod gwreiddiol gan fod glaw mawr wedi cyrraedd ar ôl yr holl ddiwrnodau poeth, ond rydym yn croesi bysedd y gallwn ei gynnal yr wythnos nesaf. Edrychwn ymlaen at redeg a chael cynrychioli un o'n tri llys sef Clwyd, Elwy neu Ystrad.

Mae trip wedi ei drefnu i'r uned i ganolfan Rufeinig Dewa yng Nghaer ac mae'r plant yn yr ysgol ar hyn o bryd yn cael dysgu am gyfnod y Rhufeiniaid. Rydym wedi bod yn cloddio am arteffactau o'r cyfnod ac wedi gwneud tariannau Rhufeinig.











**Uned dan 11**

Mae hi wedi cyrraedd diwedd tymor a diwedd y flwyddyn yma yn yr Uned dan 11. A gyda chalon drom, byddem yn ffarwelio gyda disgyblion blwyddyn 6. Hoffwn ddiolch am eu holl gyfraniadau



yma yn yr ysgol ac rydym yn dymuno yn dda iddyn nhw ar eu cam nesaf ym myd addysg. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ganu yn noson agored Ysgol Glan Clwyd. Mae’r disgyblion wedi bod yn cael ymarferion dysgu gyda Aloud ac yn swnio yn arbennig o dda chwarae teg.

Cyn hanner tymor, roedd y disgyblion yn hynod o lwcus i Oliver Crimp i mewn i wneud gweithdy gyda’r disgyblion. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael gwneud y gweithdy ffitrwydd mewn ffordd hwyliog iawn. Roedd rhai yn rhedeg fel crancod ac ambell i iâr yn gwibio o un lle i’r llall, pawb wedi cael hwyl.

Roedd y disgyblion yn brysur eleni gyda’r Eisteddfod a hoffwn longyfarch pawb a fu’n




cystadlu. Er nad oedd llwyddiant eleni, roedd pawb wedi eu plesio yn fawr iawn. Efallai roedd y beirniad ofn y fforch!?!



Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn, mae’n amlwg ei bod hi’n flwyddyn lwyddiannus iawn yn yr uned dan 11. Pob hwyl i’r rhai fydd yn ffilmio gyda rhaglen deledu ‘Tekkers’, ac rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn nesaf yn barod!

J&G Jones & Graham
CYFRIFWYR | ACCOUNTANTS

Gyda dros 40 mlynedd o brofiad mewn darparu gwasanaeth cyfrifeg ariannol ledled Gogledd Cymru. Mae ein holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau busnes
- Cwmniau Cyfyngedig
- Cyflogau
- Cyngor treth
- Hunan asesiad
- Cadw llyfrau
- Cynllunio treth
- TAW

CYFARFOD CYNTAF YN RHAD AC AM DDIM

45 Stryd y Dyffryn, Dinbych, Sir Ddinbych, LL16 3AH
01745 816321
office@jonesandgraham.co.uk
www.jonesandgraham.co.uk
ACCA
Cymraeg

**Cynghorwyr Sir Ddinbych**
**Eich Cynghorwyr Plaid Cymru**



Rhys Thomas - Dinbych Isaf
Delyth Jones - Dinbych Caledfryn a Henllan
Elfed Williams - Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae ein manylion cyswllt i gyd ar safle wê y Cyngor Sir

# Modfeddi Meddygol

## Cwyr y glust

Does 'na neb yn y tŷ 'ma'n gwrando ar ddim dw i'n 'i ddeud. Mae'r wraig, y genod a hyd yn oed y cŵn yn fy anwybyddu i'n ddyddiol. Ond os dw i hyd yn oed yn sibrwd "Sach chi'n licio mynd i Whitehall am ginio Sul?', yn rhyfedd iawn, maen nhw'n rhedeg i fyny'r grisiau i newid y munud hwnnw! Mae hyn yn profi nad oes 'na ddim byd yn bod efo'u clustiau nhw, ac nad ydw i'n ddim mwy na darn o ddodrefn yn y lle 'ma!

Er obsesiwn llawer mam gyda chadw clustiau eu plant yn lân, a'u llnau'n drwyadl gyda ffyn gwlân cotwm, wyddoch chi na ddylech chi wthio dim byd llai o faint na'ch penelin i mewn i'ch clust? A taswn i'n cael punt gan bob un ohonoch chi sy'n trio gwneud hynny'n union rwan, mi faswn ni'n gallu prynu tocyn wythnos i'r Steddfod Genedlaethol yn braf! Mae'r cwyr sydd yn y glust yn gwneud gwaith pwysig iawn i'w hamddiffyn rhag niwed drwy ddal a rhwystro llwch, bacteria ac unrhyw beth arall rhag dod i gysylltiad â chroen bregus tiwb y glust. Gan amlaf, mae'r cwyr yn dod allan ar ei ben ei hun, ond weithiau mae'n caledu ac yn blocio'r glust gan achosi byddarwch, poen, sŵn dibaid yn y glust (tinnitus) neu deimlad chwil a chyfoglyd. Bryd hynny, mae angen i chi geisio gwella'r broblem cyn iddi droi'n haint, ond cofiwch fy nghyngor i uchod am beidio â defnyddio eich bysedd na ffyn gwlân cotwm i dynnu'r cwyr — dim ond ei wthio'n ddyfnach i mewn i'r glust wnewch chi.

Yn hytrach, gan orwedd gyda'ch pen ar un ochr, defnyddiwch ddiferydd i roi dau neu dri diferyn o olew olewydd o safon feddygol yn eich clust. Pan mae'r wraig yn gwneud hyn, dw i'n mynnu ei bod yn rhoi tywel o dan y glust arall rhag ofn i'r olew ddod yn syth drwodd! Gwnewch hyn unwaith y dydd am bedwar neu bum diwrnod i feddalu'r cwyr. Dros gyfnod o tua phythefnos, mi fydd lympiau o gwyr yn disgyn allan o'r glust, yn enwedig yn ystod y nos pan fyddwch chi 'n gorwedd.

Ddylech chi ddim gwneud hyn os ydi unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- rydych chi wedi cael twll neu rwyg yn nhympan y glust (ear-drum) o'r blaen;
- rydych chi wedi colli'ch clyw yn sydyn; mae gennych chi boen neu redlif sylweddol yn dod o'ch clustiau
- rydych chi wedi cael haint yn eich clust yn y chwe wythnos diwethaf;
- rydych chi wedi cael taflod hollt neu lawdriniaeth ar eich clust yn y gorffennol;
- rydych chi wedi cael eich cynghori gan weithiwr iechyd proffesiynol i osgoi cael dŵr yn eich clustiau.

Os na fydd y driniaeth olew yn cael gwared â'r cwyr, mae'n bosib mynd at arbenigwr all ddefnyddio dŵr cynnes dan bwysau i geisio ei ryddhau. Dw i'n cofio sawl dioddefwr dros y blynyddoedd yn brolio Doctor Caradog am ei dechneg yn defnyddio chwistrell i wneud hyn. Roedd o bob amser yn llwyddo ar y cynnig cyntaf! Ond erbyn heddiw, gyda datblygiadau o ran rheoli llif y dŵr cynnes drwy ddefnyddio offer pwrpasol, ystyrir bod chwistrellu'n gallu gwneud mwy o ddrwg na da.

Yn anffodus, dydi'r awdurdod iechyd ddim yn cynnig gwasanaeth cael gwared â chwyr clustiau bellach, ond mae John Lloyd Jones, cynorthwyydd gofal iechyd, yn cynnig y gwasanaeth hwn ar ran Fferyllwyr Llŷn yn y Fferyllfa yn Llanbedrog, yn ogystal â thriniaeth arall sy'n sugno'r cwyr allan o'r glust yn hytrach na'i olchi allan, sef 'microsugno'. Mae'r ddau ddull yn cael canlyniadau ardderchog. Mi fydd John yn cael sgwrs efo chi i gychwyn, ac yna mi fyddwch chi'n penderfynu ar y dull mwyaf addas i gael gwared â'r cwyr gyda'ch gilydd. Yr unig anfantais yw bod rhaid talu am y gwasanaeth hwn, gan nad ydi o ar gael drwy'r awdurdod iechyd. Ond mae'r ffaith ei fod yn cael ei gynnig y tu allan i'r feddygfa mewn awyrgylch hwyliog ar amser sy'n eich siwtio chi o fantais fawr.

Felly os hoffech chi gael clywed yn glir eto, y cam gyntaf yw cysylltu â Fferyllfa Llanbedrog i wneud apwyntiad a chael sgwrs am y cyflwr, cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen.

Ysgrifennwyd yr erthygl hon gan Emyr Wynne Evans ar ran Fferyllwyr Llŷn.

*Ymddangosodd yr erthygl hon yn wreiddiol yn Llanw Llŷn. Diolch yn fawr i Emyr Wynne Evans ac i Llanw Llŷn am y caniatâd i gynnwys yr erthygl hon yn 'Y Bigwn' - Gol.*




CYFREITHWYR
SwayneJohnson
SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA
01745 812835
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com
Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned
Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# Sêl Cist Car cymunedol er budd yr Amgueddfa

Cafwyd fore Llun gŵyl y banc braf ym maes parcio Amgueddfa Dinbych ddiwedd mis Mai gyda'r Sêl Cist Car cyntaf i'r Amgueddfa ei chynnal.

Gyda chistiau ceir yn datgelu trysorau o bob math, gwnaed elw o dros £400 i'r Amgueddfa - diolch i'r stondinwyr a'r prynwyr paneidiau a raffl.

Mae'r Amgueddfa, sy'n un gwbl wirfoddol, yn ddibynnol ar haelioni gwirfoddolwyr a chefnogaeth ariannol. Meddai Ruth Williams, un o'r stondinwyr a'r gwirfoddolwyr: "Wedi i ni symud tŷ yn ddiweddar, roeddwn yn falch o'r cyfle i glirio 'nialwch oedd wedi casglu dros flynyddoedd, gan wybod fod rhywun arall yn gweld gwerth ac am gael mwynhad. Fe werthais o leiaf 20 DVD i blant a theuluoedd oedd yn carafanio'n lleol. A braf oedd cael bod allan yn sgwrsio dros baned gydag wynebau hen a newydd"

Dywedodd Clwyd Wynne, Cadeirydd Grŵp Amgueddfa Dinbych: "Diolch i bawb a gefnogodd ein sêl cist car cyntaf mewn unrhyw ffordd. Mae gwirfoddolwyr yr Amgueddfa am fynd ati i gynnal yr ail Sêl Cist Car, fore Sadwrn 15 o Orffennaf, gan obeithio am dywydd braf unwaith eto!"

Os oes awydd mynd â llond cist neu fwrdd o bethau i'w gwerthu ar 15 Gorffennaf, cysylltwch â Clwyd Wynne ar 07767 059508 neu e.bostiwch margaretroberts7@yahoo.co.uk (£5 o flaen llaw, neu £10 ar y diwrnod)

Neu cofiwch os nad oes dim i'w werthu gennych, bydd croeso mawr i bawb i ymweld â'r safle'r bore hwnnw lle bydd cyfle i grwydro a mwydro rhwng byrddau a chistiau ceir, a bydd hefyd gyfle i ymweld â'r arddangosfa bresennol a chael paned a sgwrs.



Alun ac Edwina



Bob yn brolio bargenion




Bargenion lu



Cwsmeriaid hapus

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur
01745 812482



# Yr Athro Jerry Hunter yng Nghapel Lôn Swan

Daeth cynulleidfa dda i Gapel Lôn Swan ddiwedd y mis i wrando ar ddarlith am un o gyn weinidogion y capel hwnnw. Ond nid dylanwad y gweinidog hwnnw ar Ddinbych na Chymru oedd y testun ond ar wlad llawer mwy a llawer pellach!

Yr Athro Jerry Hunter o Brifysgol Bangor oedd yn darlithio am un o'i hoff feysydd, sef dylanwad y Cymry a ymfudodd i'r Amerig ar wleidyddiaeth y wlad newydd honno. Ac roedd dylanwad Robert Everett yn aruthrol yno tua canol yr ail ganrif ar bymtheg.

Dyma'r cyfnod oedd yn arwain at y rhyfel cartref rhwng 1861 ac 1865, a'r rhyfel hwnnw wedi'i achosi yn anad dim gan y frwydr dros ac yn erbyn caethwasiaeth. Taleithiau'r De bron yn llwyr o blaid cadw'r bobl dduon dan draed ac yn eu trin fel anifeiliaid tra bo taleithiau'r Gogledd a'r Gorllewin yn credu fod triniaeth o'r fath yn greulon ac annynol.

Prif neges Jerry Hunter oedd mai cyn-weinidog Lôn Swan yn anad neb a lwyddodd i argyhoeddi Cymry America nad oedd caethwasiaeth yn dderbyniol ac mai dyn yw dyn beth bynnag fyddo lliw ei groen a beth bynnag fu ei gefndir anffodus cyn hynny.

Cafodd y gynulleidfa flas arbennig ar huotled a brwdfrydedd Jerry Hunter yn traddodi mewn Cymraeg eithriadol o raenus, o gofio mai Americanwr ydi yntau. Roedd ei gefndir yntau'n amlwg o'r acen gref Americanaidd oedd ganddo wrth ddyfynnu gair neu frawddeg Saesneg!

Fel "Everett Bach o Ddimbech" yr adweinid yr arloeswr oherwydd mai prin pum troedfedd oedd ei daldra, ond sylweddolodd y gynulleidfa yn Lôn Swan ei fod o'n ddyn mawr yn hanes America, ac yn ddyn y gall Cymry Dinbych heddiw fod yn falch iawn o'r cysylltiad ag ef.

*Eifion Lloyd Jones*



Yr Athro Jerry Hunter



John Davies yn cyflwyno Yr Athro Jerry Hunter



Rhai a ddaeth i wrando ar y ddarlith

gwasg.com

ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO

Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com www.gwasg.com
GwasgPrint

## Atebion MEHEFIN 2023

**Ar Draws :**


1. Prynu
4. Democrat
8. Reslo
9. Sadyrnol
11. Ofnadwy
13. Apostol
14. Orbit
16. Atgofion
18. Ionosffer
20. Asiad
22. Ehediad
24. Malaria
26. Hwylbren
27. Pydew
28. Briwsion
29. Lenin

**I Lawr :**

1. Personoliaeth
2. Ymson
3. Udo
4. Disgyn
5. Mudiant
6. Cargo
7. Afon Teifi
10. Planed Sadwrn
12. Datys
15. Bonheddwyr
16. Awr
17. Oracl
19. Echdorri
21. Ymenyn
23. Islaw
25. Radon
27. Pêl

**Cofiwch** bod y llythrennau **ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh** a **th** yn mynd i un blwch

## CROESAIR GORFFENNAF 2023



**Ar Draws :**

6. "Damwain a hap yw fy mod yn ei ...... yn byw"
8. Nomad 9. ee Dinbych a Fflint bob Awst
10. Aeddfed. Neu hen!
11. Penodiad i swydd
12. Mae pedair o'r rhain yn y Mabinogi
14. Teimlad
17. Yn disgwyl plentyn
19. Bwa o saith lliw
20. Drama, fel arfer tua'r Nadolig
24. Mae "lladd dafad ddall" yn enghraifft
25. Clwstwr o flodau
26. Cronfa ac argae ym Mhowys
27. g 7 i lawr

**I Lawr :**

1. Heb ffurf penodol (2-4)
2. Elfen rhif 38 3. Mae ..... brain i fod i ddychryn adar!
4. Ffwrn fawr er mwyn llosgi a sychu math o graig (4,4)
5. Bod o'r un farn
7. (a 27 ar draws) Adeilad ar hen safle'r ysgol ramadeg yn Lôn Ganol (4,1,6)
8. Rhan o gyfanwaith, fel brics mewn wal
13. Uned hyd
15. Gêm fwrdd lle prynir a gwerthir strydoedd
16. Llefrith gyda blas iddo ee mefus
18. Afon hiraf Ynysoedd Prydain
21. Thema artistig
22. Enw bachgen
23. Darn o gerddoriaeth, nid i barti na chôr




TE YN Y GRUG

Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
01745 816576

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Dathlu gwaith y gwirfoddolwyr dros y flwyddyn!

Wyt ti'n hoffi bod yng nghwmni plant a phobl ifanc? Eisiau ymarfer dy Gymraeg? Dysgu sgil newydd? Neu beth am rannu dy angerdd dros y Gymraeg gyda'th gymuned? Wel, Menter Iaith Sir Ddinbych yw'r lle i ti, gan bod gan yr elusen sy'n hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir gyfleoedd gwych i unigolion awyddus wrth orffen wythnos genedlaethol y gwirfoddolwyr (1 – 7 Mehefin).

Mae delwedd pawb o 'wirfoddoli' yn gwbl wahanol, ac yn ein hamrywiaeth y mae ein cryfder. Mae gan unigolion gymaint o sgiliau, profiad a brwdfrydedd i rannu â mudiadau elusennol, ac mae Menter Iaith Sir Ddinbych wedi bod yn ffodus i brofi hynny dros y blynyddoedd diwethaf.

**Gwenno Williams**, 20 oed o Lannefydd yw un ferch dalentog sydd wedi rhannu ei brwdfrydedd trwy wirfoddoli gyda Menter Iaith Sir Ddinbych yn ystod ei gwyliau o astudio yn y brifysgol.

Fel myfyriwr y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor, mae gan Gwenno sgiliau penodol hynod o ddefnyddiol y mae'n barod i'w rhannu gyda phlant ac oedolion sy'n mynychu digwyddiadau sydd wedi eu trefnu gan y Fenter neu pan fo'r elusen yn cydweithio â grwpiau a sefydliadau cymunedol.

"Dwi wrth fy modd yng nghanol bwrlwm plant a phobl ifanc, ac mae gwirfoddoli gyda'r Fenter yn cynnig sgiliau newydd i mi, wrth i mi bendroni am fy ngyrfa, wedi i mi orffen astudio yn y brifysgol. Mae gen i awydd cryf i fynd i'r byd addysg, felly mae gwirfoddoli gyda Menter Iaith Sir Ddinbych mewn amrywiol glybiau, digwyddiadau cymunedol a sesiynau hyrwyddo'r Gymraeg, wedi bod yn ofnadwy o werthfawr i mi. Dwi'n ddiolchgar iawn i Ruth a'r tîm am y cyfle."

Yn ôl **Ruth Williams**, Prif Swyddog Menter Iaith Sir Ddinbych, maen nhw'n awyddus i ddiolch i bobl am y cyfraniad maen nhw'n ei wneud i fudiadau gwirfoddol yn ystod Wythnos Gwirfoddoli Cenedlaethol a gydol y flwyddyn.

"Rydyn ni'n ffodus yma yn Sir Ddinbych bod cymaint o wirfoddolwyr o bob oed yn cydweithio i sicrhau ffyniant a llwyddiant nifer o fudiadau o fewn ein cymunedau. O gyfrannu i'r papur bro, i arwain a chefnogi clybiau Ffermwyr Ifanc, a stiwardio mewn eisteddfodau lleol, all nifer o'n gweithgareddau cynhenid Cymreig ddim gweithio oni bai am wirfoddolwyr. Felly diolch iddynt am ymroi a chefnogi!

"I ni, fel Menter, mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith rydyn ni'n ei wneud. Mae gennym nifer o bobl dalentog sy'n angerddol dros y Gymraeg, ac sy'n awyddus i rannu eu sgiliau ieithyddol a'i Cymreictod gydag eraill.

"Trwy gyfrannu amser neu trwy gyfrannu'n ariannol tuag at y Fenter sy'n elusen gofrestredig, mae cyfle i unigolion chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg o fewn eu cymunedau. Rydyn ni wastad yn chwilio am bob mathau o bobl a phobl ifanc i weithio gyda ni, mae'r drws ar agor.

"O gyn athrawon neu weinyddwyr meithrin sydd wedi ymddeol neu'n gweithio'n rhan amser, mae wastad lle gennym i groesawu mwy o sgiliau i weithio gyda phlant i annog y Gymraeg. Actorion sydd rhwng swyddi, rydym yn galw amdanoch i ddarllen straeon i blant yn ein sesiynau stori a chân.

Ffordd arall y mae'r Fenter yn cefnogi cymunedau i wella a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yw trwy gynnig cyngor ac arbenigedd i bwyllgorau sefydledig wrth hysbysebu a hyrwyddo digwyddiadau.


"Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda phwyllgor cymunedol o wirfoddolwyr yn nhref Rhuddlan ar hyn o bryd i'w cefnogi wrth gynnig arlwy o ddigwyddiadau Cymreig eu naws yn y dref, a phasio sgiliau hyrwyddo a marchnata digwyddiadau iddynt.

"Cawsom ni hwyl garw yng Ngŵyl Fwyd Rhuddlan yn ddiweddar ac mae nosweithiau braf wedi bod yn lleol gyda grwpiau canu Yr Hen Fegin a'r Moniars yn perfformio. Mae criw gweithgar o wirfoddolwyr yno yn falch o allu cynnig arlwy o ddigwyddiadau Cymreig eu naws."

Os am wybodaeth bellach am wasanaethau'r Fenter neu os oes gennych ddiddordeb i wirfoddoli o fewn eich cymuned neu gefnogi gwaith y Fenter, yn ariannol neu drwy gynnig eich amser, yna ewch i'r wefan neu cysylltwch â Ruth Williams ar 01745 812822 neu ruth@misirddinbych.cymru




Gwenno Williams, myfyrwraig o Brifysgol Bangor sy'n gwirfoddoli gyda'r Fenter. Bu Gwenno'n darllen stori Magi Ann i blant yn Neuadd y Plwy Groes yn ddiweddar




Stondin yr ŵyl

# Samariaid yn y 'Steddfod

Bellach, mae pawb yn edrych ymlaen at groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Lŷn ac Eifionydd eleni. Un o'r mudiadau a fydd ar y maes drwy gydol yr wythnos yw'r Samariaid.

Mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth gwrando ar gyfer y rhai sydd yn unig, yn wynebu cyfnodau anodd yn eu bywydau, neu'n ystyried diweddu eu bywydau, ac rydym ar gael 24 awr y dydd, gydol y flwyddyn. Drwy siarad a thrafod, y gobaith yw lleddfu'r teimladau o anobaith. Mae Llinell Gymraeg y Samariaid ar gael bob nos o 7-11y.h. – Rhadffôn 0808 164 0123.

Mae gwirfoddolwyr cangen Gogledd Orllewin Cymru yn paratoi i ymgartrefu ar y Maes, er mwyn lledaenu gwybodaeth am ein gwasanaethau gwrando a'n gwaith yn y Gymuned. Bydd cyfle hefyd i unrhyw un sydd yn teimlo ei fod angen sgwrs am unrhyw bryderon, wneud hynny ag un o'n gwrandawyr yn gyfrinachol yn ein cerbyd.

Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth am sut i wirfoddoli efo'r Samariaid. Mae angen mawr am wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn ein Cangen. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli, ffoniwch ni ar 01248 674984 i gael rhagor o wybodaeth, neu ewch i'n gwefan – www.samariaidbangor.cymru

Bydd rhan o Ardd Wrando'r Samariaid, a grewyd yn wreiddiol ar gyfer Sioe Flodau Chelsea eleni, wedi'i lleoli wrth ymyl ein cerbyd er mwyn creu cornel dlos, ddistaw a heddychlon yn ystod bwrlwm yr Eisteddfod.


Bydd rhai o enwogion ein Cenedl yn galw heibio yn ystod yr wythnos i ddangos eu cefnogaeth i'r Llinell Gymraeg, gan gynnwys Yr Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd, y mabolgampwr Robin McBryde a Liz Savile Roberts A.S. Bydd hefyd ein Ci Gwrando, Marple, yn ymuno â ni - cyn belled na fydd y tywydd yn rhy drofannol iddi hi ar y Maes.

Dewch i ymweld â ni! Bydd croeso cynnes a phaned i bawb.



Cerbyd y Samariaid


Gwirfoddolwyr y Samariaid tu allan ein cerbyd gyda'n Ci Gwrando, Marple



## Clwb Probus Dinbych a'r Cylch

Yng nghyfarfod o Glwb Probus Dinbych a'r Cylch ar Fehefin 5, croesawyd Vicky MacDonald i sôn am y prosiect cyfrinachol, i adeiladu Harbwr Mulberry yng Nghonwy.

Mae Vicky yn ysgrifenyddes Grŵp Hanes Deganwy. Bu hefyd yn faer tref Conwy dwywaith. Dechreuodd ei diddordeb yn yr Harbwr Mulberry tra yn byw yn Neganwy, gyferbyn â'r man ble adeiladwyd y Mulberries, ar Morfa Conwy.

Y prif beiriannwr oedd H. Iorys Hughes, ganwyd ym Mangor yn 1902 ac ar ôl graddio, sefydlodd ei hun fel peiriannydd sifil yn Llundain gan ddylunio Tanffordd Hyde Park a Stadiwm Wembley. Yn gynnar yn ystod yr Ail Ryfel Byd, sylweddololdd Iorys y byddai angen harbwr cludadwy, i'w tynnu i Ogledd Ffrainc er mwyn hwyluso dadlwytho milwyr a chyflenwadau yn gyflym, heb orfod cipio porthladd. Cyn bo hir daeth 'Mulberry' yn enw cyfrinachol i'r prosiect.

Nid oedd y Swyddfa Rhyfel yn awyddus i ddatblygu'r syniad nes i frawd Iorys, sef Siôr Hughes a oedd yn swyddog yn yr RNVR, sôn am y cynllun gyda chydweithiwr ac fe gafodd y syniad ei ail ystyried

Ym Mehefin 1942, fe ofynnwyd i Iorys ddylunio cynlluniau am ryw fath o pier glanio y gellid ei dynnu dros y Sianel i Ogledd Ffrainc a'i osod ar y traethau. Derbyniwyd ei gynlluniau ac ym mis Hydref 1942 dechreuwyd ar y gwaith cyfrinachol ar y Morfa.

Yn y deunaw mis canlynol bu tua 1,000 o weithwyr yn adeiladu tri phier glanio ac yna eu lansio i'r Afon Conwy. Roedd y modelau a adeiladwyd dros 60 troedfedd o uchder ac mor fawr â chae pêl-droed gyda 'hippos' yn pwyso 6,000 tunnell a ffyrdd wedi eu gosod arnynt.

Cafodd y modelau eu tynnu i Dde-orllewin yr Alban ble gawsant eu profi. Penderfynodd y Swyddfa Rhyfel i gefnogi eu cynllun eu hunain - y TN5. Roedd angen polion a glanfeydd ac felly cawsant eu hadeiladu ar y Morfa, gyda Iorys Hughes yn parhau fel ymgynghorydd.

Cyn bo hir fe adeiladwyd dau harbwr Mulberry ar gyfer D-Day, Mehefin 6, 1944. Sefydlwyd un Mulberry ger Traeth Omaha er mwyn cyflenwi milwyr yr UD ond cafwyd ei ddinistrio mewn storm ar ôl ychydig o ddyddiau. Sefydlwyd y llall ger traeth Gold, wrth ymyl Arromanches er mwyn cyflenwi milwyr Canada a Phrydain a bu yn cyflawni'r gwaith pwysig yma am 10 mis

Ar ôl y Rhyfel, aeth Iorys yn ôl i gynllunio nifer o adeiladau a seilwaith trafnidiaeth i Lundain. Ni chafodd y gydnabyddiaeth roedd yn deilwng iddo am ei waith yn ystod y Rhyfel a chollodd lawer o'i arian ei hun ar y prosiect.

Bu farw Iorys yn 1977 ond ni chafwyd ei anghofio yng Nghonwy a chodwyd Carreg Coffadwriaeth iddo ar Y Morfa, am ei waith yn ystod y Rhyfel.

Mae Clwb Probus Dinbych a'r Cylch yn croesawu aelodau newydd i ymuno yn eu Cinio Misol yng Ngwesty'r Oriel, Llanelwy, ble gallent fwynhau bwyd da, cyfeillgarwch ac araith gan ambell i siaradwr.

Am fwy o fanylion cysylltwch â'r wefan denbighprobus.com neu gyda'r Swyddog Aelodaeth: Gareth Williams 07881 783735

Bydd y cyfarfodydd nesaf ar Ddydd Llun, Gorffennaf 3 ac wedyn ar Ddydd Llun 7 Awst.

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

Symudol: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

CRD CLWB RYGBI DINBYCH

RECRIWTIO

Tymor 23/24 Tîm dan 14

Clwb Rygbi Dinbych

(Bl.9 Ysgol Uwchradd ym mis Medi)

**CROESO I BAWB O BOB GALLU**

Sesiwn blasu 12/7/2023

6yh - 7yh Clwb Rygbi Dinbych

**Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda**

**Aron 07932735282**




**MEIRION DAVIES A'I GWMNI**

**01745 812400**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych

* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Difyrion Digidol
## gan Deian ap Rhisiart

Er fod y sefyllfa wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, mae cysylltedd yn parhau'n broblem mewn cymunedau gwledig mewn sawl ardal o Gymru. Cysylltedd yr wyf yn ei gyfeirio yma, yn syml, yw pa mor gyflym, neu ba mor araf yn yr achos hwn, yw'ch cysylltiad gwe. Mae Rhwydwaith Ymateb i'r Heriau Digidol sy'n gasgliad o fudiadau, mentrau a chyrff lleol a chenedlaethol sy'n gweithio trwy'r Gymraeg, wedi bod yn trafod hyn dros y blynyddoedd diwethaf. Sut mae eich cysylltedd chi? Ydio'n rhy araf i allu gwneud unrhyw beth gan gynnwys gwylio fideo ar-lein? Ydych chi'n derbyn cyflymderau isel o dan 4Mbs?

Mae Merched y Wawr fel mudiad cenedlaethol wedi codi'r mater sawl gwaith gan gyfeirio at drafferthion ymarferol ymhlith canghennau lleol i gynnal digwyddiadau hybrid (ar-lein ac wyneb yn wyneb) oherwydd fod y cysylltiad mor wael.

Fel rhaglen Cymunedau Digidol Cymru, mae cysylltedd yn parhau'n rhwystr at gyflawni cynhwysiad digidol ymhlith y boblogaeth. Os nad yw pobl yn gallu mynd ar-lein yn ddidrafferth trwy ei ffôn, tabled neu liniadur, yna, maent dan anfantais ac yn llawer llai tebygol o fynd ati i feithrin sgiliau, magu hyder neu ddatblygu eu sgiliau digidol ymhellach. Dyma broblem greiddiol o fewn ein hisadeiledd i allu hwyluso'r digidol o fewn ein cymunedau. A'n bwriad ni yw galluogi cymunedau i gofleidio'r digidol a goresgyn yr heriau, yn lle eu bod yn cael eu gadael ar ôl. Ond mae'n anodd iawn os nad oes cysylltiad gwe da. Mae yna enghreifftiau o breswylwyr yn talu am wasanaethau band llydan misol ond oherwydd y cysylltedd difrifol yn methu elwa o gwbl o'r gwasanaethau y maent yn talu'n ddrud amdanynt.

Dyna pam fod yr arolwg cysylltedd wedi'i lansio gan dîm cefnogi digidol Cwmpas er mwyn adnabod y bylchau yn benodol mewn ardaloedd gwledig anghysbell. Yn ddiweddar, mae Cwmpas wedi bod yn cynorthwyo Caban Mwnt ger Aberaeron i allu cael cysylltiad gwe. Cyn cynnig datrysiadau, mae angen adnabod graddfa'r broblem ac mae arolwg fel hwn yn gwthio'r cwch i'r dŵr.

Bydd yr "adborth yn cael ei ddefnyddio i greu adroddiad a fydd yn helpu i lunio cefnogaeth a datrysiadau ar gyfer pontio'r bwlch digidol. Gyda'n gilydd, gallwn gryfhau ein lleisiau ac ymgyrchu tuag at Gymru fwy cysylltiedig â hygyrch."

Ydych chi fel mudiad neu ganolfan yn cael trafferth gyda'ch cysylltiad gwe? Mae'n bwysig ein bod yn gweld graddfa'r broblem er mwyn canfod datrysiad. Mae'r arolwg hwn yn fyw rwan/nawr, ewch amdani i'w gwblhau: https://shorturl.at/sGPR5

Os hoffech ragor o fanylion am hyn, cysylltwch gyda mi

deian.apRhisiart@cwmpas.coop



# PROBLEMAU PARCIO

Diddorol oedd darllen a chlywed am Elysteg Llwyd Thomas o Ddyffryn Nantlle (gynt o Ddinbych) yn apelio yn erbyn dirwy o £160 am barcio dros ei hamser yn Lligwy, Ynys Môn. Roedd hi wedi gwrthod talu'r dirwy gwreiddiol o £60 am iddi dderbyn llythyr uniaith Saesneg gan y cwmni o Fanceinion sy'n rheoli'r maes parcio ac wedi derbyn dirwy o £100 ychwanegol am iddi fynnu cael gohebiaeth dwyieithog. Llwyddodd Elysteg yn yr apêl, gyda'i thad, Eifion Lloyd Jones, yn ei chynrychioli yn yr achos sifil. Dywedodd y Barnwr, Merfyn Jones-Evans, fod y cwmni ar fai am beidio darparu arwyddion a gohebiaeth dwyieithog. Wrth i ni fynd i'r wasg, mae'r cwmni'n ystyried apelio'n erbyn y dyfarniad.

'Sgwn i os oes rhai o ddarllenwyr Y Bigwn yn fodlon rhannu eu profiad o apelio yn erbyn dirwy parcio (yn ddi-enw efallai?!) naill ai'n llwyddiannus neu aflwyddiannus?

Fe wna'i wthio'r cwch i'r dŵr drwy gyfaddef 'mod i wedi mynd drwy'r broses ddwy waith. Y tro cyntaf roeddwn wedi parcio wrth furiau tref hynafol Conwy ac wedi derbyn llythyr yn dweud 'mod i wedi aros dros fy amser ac felly'n derbyn dirwy. Ar ôl parcio, roeddwn wedi sylwi fod y wybodaeth ar yr arwydd Cymraeg ddim yn hollol fel y wybodaeth ar yr un Saesneg, felly dyma tynnu lluniau o'r ddau arwydd o ran diddordeb. Handi iawn dan yr amgylchiadau! Felly dyma yrru'r lluniau i Gyngor Tref Conwy, a'r canlyniad oedd nad oedd dirwy i'w dalu. (Yn anffodus, mae'n ymddangos fod y lluniau hynny wedi diflannu i grombil fy nghyfrifiadur.)

Roeddwn yn aflwyddiannus gyda fy ail apêl (yn hollol haeddiannol) felly wna'i ddim i fanylu ar hwnnw!


Hyd y gwela'i, mae nifer o resymau swyddogol dros apelio, a dyma ychydig o'r rhai pwysicaf:

- Roedd yr arwyddion yn anghywir, er enghraifft yn rhoi gwybodaeth anghywir neu yn anodd i'w weld yn iawn.
- Mae'r Warden neu'r Cyngor wedi gwneud camgymeriad.
- Rydych chi eisoes wedi talu'r ddirwy.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud camgymeriad ar y tocyn neu'r llythyr.
- Mae'r rheolau traffig yn anghywir.

Roedd eich modur wedi ei ddwyn.

***Cofiwch, os oes gennych chi brofiad o apelio yn erbyn dirwy parcio, beth am yrru ebost i'r golygydd ar gwybod@ybigwn.cymru? Byddai'r Golygyddion yn hynod falch o glywed gennych hefyd ar unrhyw destun arall dan yr haul – o fewn rheswm!***

*John Davies*



# CFFI Clwyd 2022-2023

Dechreuwyd y flwyddyn eleni hefo noson wedi ei gynnal gan 'Nerth dy Ben' yng Nghlwb Rygbi Dinbych. Roedd hi'n noson hwyliog ac roedd hi'n braf gweld wynebau newydd hefo ni.

*Alaw o Nerth dy Ben a rhai o'r criw.*

Roedd hi'n braf cwblhau sialens ein cyn-gadeirydd - Gwenno Davies, Uwchaled ddiwedd Medi. Sialens 3 coes i fyny Moel Famau oedd dewis Gwenno, a'r arian yn mynd at elusen DPJ. Llongyfarchiadau i Alex a Ross Thedens, Maelor, ar ddod i'r brig gydag amser anhygoel o 28 munud i fyny'r mynydd! Diolch i Gwenno am drefnu, ac am ei Gwaith fel Cadeirydd y Sir am dair blynedd o 2019 i 2022.

Cafwyd diwrnod prysur iawn yn barnu stoc yn ocsiwn Rhuthun ddechrau Hydref. Roedd moch, wyn tew, gwartheg godro, gwartheg beef, a carcass yno i'w beirniadu. Llongyfarchiadau mawr i Ifan Jones, Llansannan ar ennill teitl Stocmon hŷn y flwyddyn, ac i Aron Jones, Betws yn Rhos, ar ennill teitl Stocmon Iau y flwyddyn.

Cafodd pwyllgor blynyddol yr AGM ei gynnal yn Llannefydd eleni, a llongyfarchiadau i'r canlynol ar gael eu hethol i'r Pwyllgor:

Cadeirydd y Sir – Nia Parry, Chwitffordd

Is-Gadeirydd y Sir – Hafina Cordiner, Rhuthun

Cadeirydd pwyllgor Gweithgareddau – Dave Stoner, Cilcain

Is-Gadeirydd pwyllgor Gweithgareddau – Charlotte, Cilcain

Llywydd y Sir – Dilwyn Pierce, Llannefydd

<u>Eisteddfod</u>

Yn yr ocsiwn yn Rhuthun oedd yr Eisteddfod Sir eleni. Cafwyd diwrnod prysur, llawn cystadlu brwd. Cafwyd anerchiad gan lywydd y dydd, Eirian Roberts, Llannefydd. Llongyfarchiadau mawr i Gwenno Lois Williams, Llannefydd, ar ennill y gadair eleni. Llansannan ddaeth i'r brig hefo'r mwyaf o farciau eleni. Llongyfarchiadau mawr iddynt. Martha Williams, Llannefydd, gafodd y darian 'cystadleuydd orau dan 16', ac Emyr Williams, Llannefydd, aeth adref hefo'r darian 'unigolyn gorau yn yr adran hwyl'. Da iawn chi. Diolch i'r holl gystadleuwyr am roi gwledd o berfformio i ni. Mae gennym ni dalent anhygoel yn sir Clwyd.

<u>Eisteddfod Cymru</u>

Aeth bys llawn aelodau lawr i Abergwaun i gystadlu yn Eisteddfod Cymru. Llongyfarchiadau enfawr i'r canlynol ar eu llwyddiant:

Owain John, Llansannan – 1af, Unawd, 2il, Canu Emyn

Llywela Edwards, Uwchaled- 1af, Cân gyfoes

Parti Llefaru Nantglyn - 3ydd

Emyr Williams a Heledd Pierce, Llannefydd – 1af, Cyflwyniad Dramatig

Emyr Williams a Lleucu, Llannefydd - 2il, Deuawd Doniol

Fe wnaeth y côr Sir hefyd ganu yn swynol, ond dim llwyddiant y tro yma. Diolch yn fawr i Alaw Ffrith Arw am ein harwain eto eleni. Rydym yn lwcus iawn ohonot Alaw! Yn Llangrannog oedd pawb yn aros ar ôl yr Eisteddfod, ac roedd hi'n braf cael ymlacio a sgwrsio tan yr oriau mân. Penwythnos i'w chofio.

<u>Ffair Aeaf Clwyd</u>

Cafwyd diwrnod prysur o gystadlu yn neuadd bentref Cilcain i'r Ffair Aeaf. Roedd pob math o gystadlaethau o dorri Cyw Iâr, addurno cacen Nadolig, gwneud torch Nadolig, Trimio Oen, a llawer mwy. Llongyfarchiadau i'r enillwyr aeth ymlaen i gystadlu yn Ffair Aeaf Llanelwedd. Mi gafwyd llwyddiant yn Llanelwedd efo Leah Meirion a'i chwaer, Alis, yn dod i'r brig am besgi moch, trydydd i Efa Williams, Llansannan yn y barnu stoc a llwyddiant i Mared Fflur, Uwchaled yn y gystadleuaeth carcas. Diolch i Glwb Llansannan am gynrychioli'r Sir yno drwy gynnal gwasanaeth garolau yn y prif gylch. Roedd naws Nadoligaidd hyfryd yno, ac roedd pawb wedi mwynhau Owain John, ac Ensemble Llansannan yn canu.

<u>Dawns y Llywydd</u>

Yn y Faenol Fawr oedd Dawns y Llywydd, neu ddawns y Llywyddion ddylwn i ddweud. Oherwydd y pandemig, roedd angen dawns i fwy nag un llywydd, sef Bob Parry, Betws yn Rhos, ac Ringo a Mallt Jones, Uwchaled. Roedd hi'n noson wych, cwmni da, bwyd da, a llond y lle o ddawnsio hefo Mic ar y Meic! Diolch yn fawr i bawb wnaeth brynu raffl - casglwyd £1,100 er cof annwyl am Nia Ystrad, cyn -aelod o Uwchaled. Diolch i Bob, Ringo a Mallt am eu gwaith fel llywyddion.



Parti Llefaru Nantglyn

<u>Hel eitemau i'r banc bwyd a ffoaduriaid</u>

Diolch i Hafina, ein Is-gadeirydd Sir am drefnu casgliad i Fanc Bwyd Dyffryn Clwyd, ac i elusen Ffoaduriaid Gogledd Cymru. Daeth llwyth o roddion i Lysfasi, felly diolch i bawb wnaeth gyfrannu mor hael.

<u>Digwyddiadau dechrau'r flwyddyn</u>

I ddechrau'r flwyddyn 2023, aeth y fforwm ieuenctid i sglefrio iâ yng Nglannau'r Ddyfrdwy. Roedd 84 o aelodau yno.

Yr wythnos ganlynol, cafwyd noson ddiddorol hefo Milfeddygfa'r Wern yn y Crooked Horn Inn, i gael ychydig o wybodaeth ddefnyddiol cyn i dymor prysur yr wyn bach ddechrau. Diolch i Dyfrig am ei gyngor defnyddiol.

Cafwyd noson deitlau ddechrau Chwefror yng ngholeg Llysfasi. Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Aelod Hŷn y flwyddyn – Aled Jones, Nantglyn

Aelod Iau y flwyddyn – Erin Williams, Uwchaled

Llysgennad y Sir – Ceridwen Edwards, Uwchaled

Ymgeisio am swydd – Leah Meirion, Nantglyn

<u>Llwyddiant am waith cymunedol</u>

Llongyfarchiadau gwresog i glwb Uwchaled, a ddaeth i'r brig trwy Gymru a Lloegr yng ngwobrau cenedlaethol CFFI ym Mirmingham. Enillodd y criw y wobr 'Ysbryd Cymunedol' am eu gwaith arbennig yn ardal Uwchaled. Da iawn chi.

<u>Siarad cyhoeddus</u>

Llongyfarchiadau mawr i'r clybiau wnaeth gystadlu yng nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg gyda Nantglyn yn dod i'r brig yn y noson Gymraeg a Cilcain yn y Saesneg. Fe wnaeth yr enillwyr fynd ymlaen i Lanelwedd a chynrychioli'r Sir yn wych.

⟶

## Sialens y Cadeirydd

Sialens ein cadeirydd sir eleni, Nia Parry, oedd gweu hetiau i'w gwerthu er mwyn casglu arian i'r Sir. Erbyn hyn mae Nia wedi gweu oddeutu 155 o hetiau ac yn gweld y defaid yn ei chwsg…!

Yng Nghilcain oedd y diwrnod gwaith maes eleni. Roedd hi'n ddiwrnod prysur o ffensio, arwerthu, sgiliau fferm, cystadleuaeth ffasiwn a llawer mwy gyda Chilcain yn dod i'r brig. Llongyfarchiadau arbennig i Aron Jones, Betws yn Rhos, ac Elinor, Chwitffordd, am ddod i'r brig trwy Gymru yn eu cystadlaethau i lawr yng Ngheredigion.

Rali

Roedd y Rali yn llwyddiant ysgubol yn ocsiwn Rhuthun. Roedd yr haul allan trwy'r dydd, a'r cythraul cystadlu i'w weld yn glir. Llongyfarchiadau i'r holl aelodau a'u clybiau am waith o safon uchel. Diolch i Llaeth y Llan am gyfrannu hetiau bwced fel gwobrau i'r enillwyr - roedd pawb wrth eu boddau hefo nhw. Llongyfarchiadau i Chwitffordd am ennill y mwyaf o bwyntiau trwy'r Rali, a phob lwc i bawb sy'n mynd ymlaen i gystadlu yn y Sioe Fawr.

Dyw'r flwyddyn ddim cweit wedi dod i ben eto, ond mae'n amlwg o'r uchod ein bod wedi cael chwip o flwyddyn fel Sir. Diolch arbennig i'n trefnydd, Eirlys, am ei gwaith i wneud yr holl bethau yma'n bosib.

CFFI Clwyd

Ym mröydd mynydd a môr – yn nhir Clwyd,
mae criw clên, a'u hangor
drwy'u hoes – Mudiad sy'n drysor,
yn dal yr allwedd i'w dôr.

Ffion Gwen

Ceridwen Edwards,
Llysgennad CFFI Clwyd

# Llyfrgell Dinbych

**Noson yng nghwmni Haf Llewelyn**

Yn ystod wythnos Gŵyl Ganol Haf Dinbych, cawsom gyfle i gael cwmni'r awdur Haf Llewelyn yma'n Llyfrgell Dinbych yn trafod ei nofel newydd Salem. Ffion Clwyd oedd yn llywio'r noson a bu'n holi Haf am sut ddechreuodd hi ysgrifennu'r nofel a beth oedd cefndir y nofel. Cawsom hanesion difyr am ei magwraeth yn ardal Ardudwy a'r heriau wrth iddi sgwennu o'i chartref yn Llanuwchllyn.

Mae Haf wedi ysgrifennu nifer o nofelau fel Y Graig, Y Traeth, Pwyth, Ga' i Fyw Adra ac yn fwy diweddar Salem. Nofel yn pendilio rhwng 1908 a 2016 yw Salem. Mae cysgod y darlun enwog gan Vosper drwy'r stori, a'r hen gred fod llun y diafol yn y siôl. Dyma nofel am ganlyniadau rhagfarn a chonfensiwn negyddol, a thaith y cymeriadau ynddi i godi uwchlaw'r confensiynau rheiny.

Cafwyd noson wych o ddiwylliant Cymraeg ac 'roedd canmoliaeth uchel i'r noson.



Haf Llewelyn



Bethan Hughes, Prif Lyfrgellydd

**Sialens Ddarllen yr Haf**

Rydym yn brysur yn y llyfrgelloedd yn paratoi at y sialens eto eleni. Cofiwch ymuno â'r sialens o'r 8fed o Orffennaf. Bydd gennych drwy wyliau'r haf i gwblhau'r sialens er mwyn derbyn medal ar y diwedd.

I gysylltu â ni ffoniwch 01745 816313
e-bost: llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk










# Carnifal Dinbych



Magi Ann efo Ruth, Menter Iaith a Menai ac Elfair, Cymraeg i Blant





Y Bigwn yn rhannu stondin gyda Menter Iaith, Erfyl a Llifon




Magi Ann allan am hwyl a sbri yn y carnifal




Glesni, Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG)



Osian, un o Fwyellwyr Clwyd



Liam a Tia Vaughan



Teulu Davies



Y Maer y Cynghorydd Alyn Ashworth yn barod i gychwyn arwain y carnifal

# Tu ôl i ddrws Traed Fyny




Wyt ti erioed wedi pendroni be' sy'n mynd ymlaen tu ôl i ddrws Traed Fyny-Feet Up yma yn Ninbych?

Efallai dy fod di'n meddwl mai dim ond "trin" traed dwi'n ei wneud (gan y byddaf yn cael fy ngalw yn Nia Traed yn fwy aml na dim arall y dyddiau yma), ond mae 'na fwy na hynny yn digwydd yma, a na dwi ddim yn paentio na thorri dim un gewin na ffeilio croen sych y sodla!

Lle i enaid i gael llonydd, dyna sut dwi'n hoff o ddisgrifio fy 'stafell driniaeth a dyna pam y clywir dipyn o sŵn chwyrnu yma dybiaf i!

Yn ogystal â bod yn fam, llysfam ac yn wraig, dwi hefyd yn helpu eraill i wella drwy fy ngwaith fel Adweithegydd Clinigol. Mae 'na 4 mlynedd ers i ddrysau Traed Fyny-Feet Up gael eu hagor mis Gorffennaf yma, a degau ar ddegau o ferched, dynion a phlant wedi elwa o fod wedi camu dros y rhiniog.

Mae'n bywydau a'n meddyliau yn un dagfa draffig cymhleth, yn gwibio o fan hyn i fan'acw heb dreulio prin ddim amser â'n traed oddi ar y sbardun, i dreulio a phrofi amser tawel a llonydd. Heb os, mae adweitheg yn cael ei gysidro fel triniaeth gwbl ymlaciol. Defnyddir y driniaeth holistig yma gan nifer o bobl i leihau straen, gorbryder, tensiwn a phoen. Mae'n hen gelfyddyd gwellhad a ddefnyddir drwy ganolbwyntio ar wahanol rannau o'r traed, wyneb neu'r dwylo i ddod a chydbwysedd yn ôl i'r corff mewn ffurf emosiynol neu'n gorfforol. Mae llygaid Adweithegydd yn gallu gweld map o holl systemau'r corff ar y traed, wyneb neu'r dwylo. Rhoddir sylw i bwyntiau atgyrch (reflex points) sy'n cyfateb i organau penodol neu system yn y corff i leddfu neu ysgogi'r egni o'i gwmpas gyda'r bwriad o gyfrannu tuag at deimlo'n well.

Ond dim jest "chwarae efo traed" (meddylfryd cul rhai unigolion) sy'n digwydd yma, rwyf hefyd yn rhoi sylw haeddiannol i'r pen, wyneb ac ysgwyddau drwy driniaethau megis adweitheg wyneb, cwpanu'r wyneb a thylino pen Indïaidd. Efallai nad oedd rhai ohonoch yn ymwybodol fod ffasiwn beth ag adweitheg wyneb yn bodoli? Mae'n cynnig holl fuddion adweitheg dwylo neu draed ond yn creu teimlad o les ar y tu mewn yn ogystal â'r tu allan. Rydym yn dal straen, tensiwn a blinder yn ein hwynebau ac yn treulio gymaint (os nad gormod) o amser yn ein pennau sy'n cyfrannu tuag at gorbryder neu deimlo'n isel neu wedi llwyr ymlâdd. Fel tegell sydd wedi cyrraedd ei ferw bwynt, mae'n hanfodol i leddfu a thawelu'r symptomau yma a does dim ffordd well na thrwy adweitheg wyneb, cwpanu neu dylino pen Indïaidd. Nid pawb sydd yn hoff o rywun yn cyffwrdd eu traed (mae fy ngŵr yn un o'r rheiny!) felly dyna'r rheswm dros gynnig y triniaethau eraill. Ond, dwylo fyny pwy sydd wedi clywed am gwpanu'r wyneb (facial cupping) 'ta? Dwi'n siŵr dy fod yn gyfarwydd neu wedi gweld effaith botox i'r wyneb, wel mae cwpanu'r wyneb yn cael ei gysidro fel y driniaeth orau gwbl naturiol (nad yw'n llawfeddygol) yn lle botox. Mae'n adfywio strwythur celloedd i amlygu'r gwddf a llinellau a welir ar yr ên. Drwy ddefnyddio'r cwpanau'n gywir gallent helpu i leihau'r edrychiad o fân linellau/rhychau ar y croen a rhoi sglein iach i'r wyneb. Ond dim triniaeth "harddwch" mohoni'n unig, mae manteision hyd braich i dy iechyd hefyd ac am y rheswm hynny 'dwi fwyaf angerddol tuag ato. Gall problemau sinws, cur pen, creithiau acne neu deimlo'n swrth fod yn bethau sy'n perthyn i'r gorffennol.

Felly, lle i enaid gael llonydd ond hefyd lle ac amser i ti roi Traed Fyny ***heb*** deimlo'n euog sydd tu ôl i ddrws Traed Fyny. Gofynna i ti dy hun, pryd oedd y tro diwethaf i hynny ddigwydd i ti?

*Nia Haf Jones*

## Canu a Chymdeithasu

### gyda Chanolfan Gerdd William Mathias

Yn ddiweddar mae Canolfan Gerdd William Mathias wedi bod yn cynnal sesiynau canu hwyliog yn yr ardal gyda'r nod o roi cyfle i bobl hŷn ddod ynghyd i gyd-ganu a chymdeithasu. Mae dros ddeng mlynedd bellach ers i'r elusen sydd a'i phencadlys yn Galeri Caernarfon ehangu ei gweithgareddau i ardal Dinbych. Cynigir gwersi offerynnol a lleisiol wythnosol gan diwtoriaid proffesiynol yn Theatr Twm o'r Nant ddwy noson yr wythnos ac mae gweithdai amrywiol eraill yn cael eu cynnal yn y gymuned ac ar y we gan gydweithio gydag Adran Gelfyddydau Hamdden Sir Ddinbych a phartneriaid eraill.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Ceri Wyn Rawson, un o diwtoriaid cymunedol y Ganolfan Gerdd, wedi bod yn cynnal sesiynau canu rheolaidd yn Awel y Dyffryn, Dinbych a Llys Awelon, Rhuthun. Mae'r sesiynau rhain yn rhan o brosiect cerdd a chelf weledol ar y cyd rhwng Celfyddydau Hamdden Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin gyda chefnogaeth grant gan Feddygon Teulu Canol a De Sir Ddinbych. Mae Ceri yn therapydd cerdd cymwysedig sydd yn arbenigo mewn gweithio gyda phobl hŷn. Mae'r sesiynau yn gyfle i bobl ganu a thrafod eu hoff ganeuon yn ogystal â dysgu caneuon newydd ac ymarferion sy'n llesol i'r cof.

Mae nifer o drigolion Dinbych hefyd yn mynychu sesiynau Paned a Chân a gynhelir gan Ceri ar ran Canolfan Gerdd William Mathias yn festri Capel Llanrhaeadr ar foreau Mawrth. Sefydlwyd y sesiynau yma yn dilyn cynnal cyfres o sesiynau ar zoom yn ystod y cyfnod clo. Roedd y sesiynau zoom wedi profi yn werthfawr iawn i'r aelodau ac roedd ceisiadau i ddatblygu darpariaeth wyneb i wyneb pan fyddai hynny'n bosibl. Ar ôl sefydlu'r dosbarth flwyddyn yn nôl gyda chymorth Celfyddydau Hamdden Sir Ddinbych mae'r Ganolfan yn hynod ddiolchgar o dderbyn grant gan Gronfa Brenig i barhau'r gyda'r sesiynau tan fis Mawrth 2024. Nid oes cost i fynychu'r sesiynau rhain sy'n cael eu cynnal trwy'r Gymraeg. Dywed un o'r aelodau:

"Mae`ngwr a minnau wedi elwa'n fawr o fod yn rhan o'r sesiynau hyn ac rydym wedi profi'r llawenydd mawr a roddasant i eraill. Mae gennym diwtor ardderchog, Ceri Rawson, sy'n defnyddio ei chefndir therapi cerdd yn hynod effeithiol. Yn ogystal â gwneud ffrindiau newydd mae pobl yn ailgysylltu hefyd a hen ffrindiau a'r cyfan trwy nerth cerdd." (llun ar dudalen 2)

Gwefr heb Wifrau **AMGUEDDFA RADIO** Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/






Cofgolofn
Syr Jimmy Shand
yn
Auchtermuchty,
lle bu'n byw

## Darlith

**Jimmy Shand** (1908 - 2002), **Cerddor a Darlledwr o'r Alban** oedd pwnc ein darlith ar-lein ddiweddar gan David Crawford. Ganwyd Jimmy Shand yn East Wemyss, Sir Fife, pentref lle roedd cerddoriaeth yn boblogaidd iawn, a dysgodd Jimmy sut i chwarae'r harmonica a'r ffidl yn gynnar iawn. Ni chafodd wers gerddoriaeth erioed ac ni allai ddarllen cerddoriaeth ond dangosodd ei dad iddo sut i chwarae'r acordion. Roedd yn gerddor wrth reddf ac erbyn 12 oed roedd yn teithio o gwmpas Fife ar ei feic yn diddanu cynulleidfaoedd. Melodeon 10 nodyn oedd ei offeryn cyntaf. Gadawodd yr ysgol yn 14 oed, i fynd i weithio yn y pwll glo, ond roedd y diwydiant glo ar drai a chollodd ei swydd. Bu'n gweithio mewn nifer o wahanol leoedd, safle adeiladu, gorsaf bwer Fife ac mewn ffatri blociau concrit. Yn 1929 cafodd glyweliad gan y BBC, ond ni chafodd gynnig swydd, gan ei fod yn tapio ei droed wrth chwarae! Yn 1933 aeth i Dundee i weld ffrind ac aethon nhw i mewn i siop gerddoriaeth, lle cafodd Jimmy gyfle i chwarae pob offeryn. Cynigiodd Charles Forbes y perchennog swydd iddo yn y fan a'r lle, fel gwerthwr offerynnau a chasglwr dyledion. Roedd chwarae'r acordion yn rhan o'r swydd er mwyn dangos rhinweddau'r offeryn. Prynodd acordion nodyn-fotwm gwerth £36 i'w hun, er ei fod yn derbyn llai na £2 yr wythnos. Penderfynodd ei frawd hŷn dalu am yr offeryn iddo.

Enillodd Jimmy gystadleuaeth gerddoriaeth a roddodd y cyfle iddo recordio ei gerddoriaeth. Rhyddhaodd ddwy record ar Regal Zonophone yn hwyrach, o dan nawdd Charles Forbes. Yn 1935, arwyddodd gytundeb gyda Recordiau Beltona a brofodd yn llwyddiannus iddo, a dyma'r cyfnod y dechreuodd ysgrifennu ei gerddoriaeth ei hun. Bu'n recordio gyda Beltona am ddeng mlynedd, ac wedyn symudodd at gwmni Parlophone. Bu'n cydweithio gyda chynhyrchwyr o'r Almaen er mwyn creu acordion personol i'w hun, y Merino Hohner oedd yn addas ar gyfer cerddoriaeth ddawns Albanaidd.


Gwirfoddolodd i ymuno â'r Llu Awyr ar gychwyn yr Ail Ryfel Byd, ond gwrthodwyd ei gais oherwydd cyflwr ei iechyd, ar ôl bod yn gweithio yn y ffatri blociau concrit. Ymunodd â'r Gwasanaeth Tân, ac yn y cyfnod yma ffurfiodd 'Jimmy Shand a'i Fand', band oedd yn cynnwys 2 acordion, 1 ffidl, piano, drymiau ac, yn hwyrach, bas dwbl. Cafodd gyfle i ddarlledu ar y radio ar Ionawr 1, 1945, ac fe'i penodwyd yn arweinydd band ar raglen deledu 'The White Heather Club' ar y BBC, a gyflwynwyd gan Andy Stewart. Jimmy oedd y cerddor a werthodd fwyaf o recordiau i Parlophone, tan i'r Beatles gyrraedd! Erbyn canol y 1950au roedd yn rhyddhau record newydd bob mis; yn wir rhyddhaodd fwy o recordiau na'r Beatles ac Elvis Presley gyda'i gilydd. Derbyniodd ddisgiau arian ac aur gan EMI ac urddwyd yn MBE. Cyfnod, a gyrfa, llwyddiannus iawn i'r dyn gostyngedig na allai ddarllen cerddoriaeth!

## Bore Coffi

Diolch i bawb a gefnogodd ein Bore Coffi ar fore mor braf yn ddiweddar.

## <u>Cwis Lluniau Dinbych</u>

Bydd ein Cwis Lluniau ar nos Iau, Gorffennaf 13eg, yn cychwyno'r Amgueddfa am 6.30. Cewch gyfle i gerdded o gwmpas canol y dref er mwyn canfod y lleoliadau yn y ffotograffau.Bydd paned a chacen yn yr Amgueddfa i ddilyn.



**O'r casgliad**




Yn y 1950au dechreuwyd cynhyrchu falfiau yn y DU ac Ewrop oedd lawer llai na'r rhai cynt, ac wedi eu gwneud o wydr. Roedd y pinnau metal, oedd yn ffurfio'r cysylltydd, wedi eu gwneud o fetel meddal, i osgoi cracio'r gwydr wrth symud. Mae llawer o'r falfiau yma yn yr Amgueddfa a defnyddiwyd nhw yn eang mewn radios, mwyaduron a setiau teledu ar y pryd. Yr N78 Pentode gan GEC, wedi ei brandio "Osram", sy yn y llun, ac roedd yn falf allbwn sain i yrru seinydd. Byddai'r falf fach, sensitif yma yn darparu tua 4.5wat o sain o safon dda. Sylwch ar y pinnau metal meddal ar y gwaelod.

## Y ddarlith nesaf

Ar Orffennaf 21ain, bydd Alison Bromley o Ddinbych yn sgwrsio am **Hel Achau.** Bydd hi'n egluro sut mae ymchwilio i hanes teulu trwy ddefnyddio'r cyfrifiad, tystysgrifau geni, priodas a marwolaeth, amrywiaeth enfawr o gofnodion eraill a gwefannau. Bydd hi'n dangos y ffordd orau i ddefnyddio'r holl wybodaeth a sut mae osgoi anawsterau. Mae'r ddarlith yn agored i bawb ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Os ydych am wylio ar Zoom, ewch i wefan **Cwmulus** neu dudalen Facebook **Gwefr heb Wifrau** i gofrestru. Croeso mawr i unrhyw un sy am wylio Alison "yn fyw" yn yr Amgueddfa lle bydd paned a chacen yn aros amdanoch.

## Ymweld â'r Amgueddfa

Mae'r Amgueddfa ar agor bob dydd Sadwrn, 11.00yb – 4.00 yp. Gwyliwch y wefan neu dudalen Facebook am oriau ychwanegol yn ystod y tymor gwyliau.
Os ydych am ymweld ar unrhyw adeg arall, cysylltwch â

gwybod@gwefrhebwifrau.cymru i drefnu.
Croeso cynnes i bawb.

## Llythyr

Annwyl gyfeillion,

Hoffai Archif Menywod Cymru dynnu eich sylw at sesiwn arbennig a gynhelir ar faes Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Mhabell y Cymdeithasau 2 ar ddydd Gwener 11 Awst am 3.30. Byddwn yn cynnal sesiwn ar y thema 'Atgofion ac Archifau: cip ar fywydau a chyfraniadau rhyfeddol Margaret Lloyd George a Cerdiwen Peris yng nghwmni Elizabeth George a Shan Robinson.'
Mae pawb wrth gwrs yn gwybod am yrfa ddisglair a dadleuol David Lloyd George ond roedd ei wraig Margaret yn ddynes eithriadol weithgar a deallus hefyd. Roedd, nid yn unig yn hybu gyrfa ei gŵr, ond yn brysur yn hyrwyddo dirwest, yn gynghorydd tref ac yn ymgyrchydd yn ogystal ag yn fam i bump o blant. Bydd clywed atgofion aelod o'r teulu, Elizabeth George, amdani yn cynnig gogwydd gwahanol ac yn gwneud cyfiawnder â'i hanes hithau.
Mae Shan Robinson yn aelod o staff Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor ac yno mae pentwr o archifau Alice Gray Jones, neu 'Ceridwen Peris', prif athrawes, dirwestwraig, awdur, bardd a golygydd y cylchgrawn y Gymraes am tua chwarter canrif . Bu'n byw yn Y Ffôr ger Pwllheli am flynyddoedd ac yn sicr byddai'r ddwy arloeswraig hyn wedi adnabod ei gilydd.
Os ydych yn dod i Foduan, dewch i glywed mwy o'u hanes difyr.

Trefnir cyfieithu ar y pryd. CROESO I BAWB.
Catrin Stevens (ar ran Archif Menywod Cymru)

HUW VAUGHAN JONES
Arlunydd, Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig. Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

GWASANAETH HURIO BEICIAU TRYDAN YN SIROEDD DINBYCH A CONWY


(wedi'w leoli yn Henllan)
Cysylltwch hefo DEWI: Ffôn:07788 270138
E-Bost:info@llanebikes.co.uk
Gwefan:llanebikes.co.uk

PyBJ

GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

# Gwyn y gwêl ...

Diddorol oedd darllen yn rhifyn Mehefin o'r *Bigwn* yr erthygl gan Rob Evans "Cyngerdd Mawr Boreol". Fel Rob rwyf yn hoffi cadw ffenest yr ystafell wely ar agor trwy'r nos yn y tywydd poeth yma (a trwy'r flwyddyn a deud y gwir). Ond yn wahanol i Rob nid wyf i yn fore godwr trwy ddewis, ond rwyf yn cael fy neffro bob ***bore?*** (canol nos fyswn i yn galw 4 o'r gloch fel arfer!).
Cefais fy magu yng nghefn gwlad ac wedi arfer efo gwahanol adar ac anifeiliaid yn canu neu' gwneud sŵn. Ond, dros y blynyddoedd diwetha' 'ma, mae'r sŵn sydd i'w glywed ym Mharc Myddleton - yn uwch a mwy aflafar na dim a glywais erioed.
Oedd, roedd ambell goeden o gwmpas adre gyda nyth brain (neu ddau neu dri) ynddo ond anaml oedd eu sŵn (cân??) yn amharu ar ddim. (Tydi'r gair Crawc yn un da i ddisgrifio sŵn brân!) Ond yma! - mewn un goeden dderw wrth gefn ein tŷ ni roedd saith o nythod ar 27ain Mawrth eleni - mae gennyf lun!!- ac roeddent yn dal i adeiladu nythod. Roeddent i'w gweld yn torri canghennau bychan oddi ar goed o gwmpas, ond yn waeth fyth, darn o'r coed oedd yn dal y ffelt ar do fy sied!
Rŵan o fewn "clyw" i'n tŷ ni, (h.y. heb orfod gwrando yn astud), mae pedair coeden dderw.
Yn ôl Google mae brain yn paru am oes sydd yn gallu bod hyd at ugain mlynedd!!!! Maent yn magu, ar gyfartaledd pedwar cyw bob blwyddyn. I'r rhai ohonoch chi sydd yn dda efo mathemateg, cymerwch fod **o leiaf** saith nyth ym mhob coeden wrth tŷ ni, (mae llawer mwy gallaf eich sicrhau) mae pedwar ŵy yn deor ym mhob nyth ac mae'r rhieni yma hefyd. Sawl bran sydd yn cadw sŵn trwy'r dydd ond yn enwedig tua 4- 6 o'r gloch y bore a tua 5-7 o'r gloch nos, wrth tŷ ni?
Roeddwn allan un fin nos yn ddiweddar ac mewn cyfnod o chwarter awr, cyfrais 32 o frain yn dod adre i'w nythod (yn yr un goeden) ac yn cael y croeso gorau a glywsoch erioed.
I wneud pethau yn waeth, dwi yn amau nad yw'r 'plant' yn symud ymhell o'u rhieni ar ôl tyfu fyny, ond maent yn gwneud eu cartrefi mewn coed cyfagos felly bydd tua 112 o frain Hilary Close a Llys Marchell yn chwilio am gartref yn Ninbych gwanwyn nesaf. (Na chewch chi ddim torri coed i lawr).
Erbyn hyn mae'r rhai bychain wedi dysgu hedfan (ond ddim yn mynd ymhell o adre). Maent ar doeau'r tai o gwmpas yn cael ei bwydo gan eu rhieni ac yn ôl y sŵn yn ddiolchgar iawn am y bwyd.
Hoffwn yn wir gael "ap" i adnabod cân gwahanol adar (fel y mae Rob Evans yn sôn yn ei erthygl) ond mae arnaf ofn fy mod yn debycach o daflu fy ffôn at y brain yn hytrach na chael yr ap ar hyn o bryd.

*Preswyliwr digwsg Parc Myddleton*



# Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Twm o'r Nant

Bu hi'n flwyddyn brysur i'r Gymdeithas gan i ni allu cynnal digwyddiadau yn yr Ysgol unwaith eto. Bu sawl noson codi arian llwyddiannus - Nosweithiau Ffilm, Disgo Tywyll, Ffair Nadolig a noson Bingo teulu ac edrychwn ymlaen at y Ffair Haf i gloi'r flwyddyn. Rydym yn ddiolchgar i'r Bwrdd Crwn Dinbych a'r Cyffiniau am eu rhodd o £500 tuag at sied newydd i'r Uned dan 5. Mae'r gymdeithas yn falch o allu rhoi £2000 i dalu am gyfran o'r parc antur newydd ar yr iard, ac rydym wedi addo swm sylweddol i'r Ysgol ar gyfer offer chwarae a hefyd ar gyfer yr unedau. Mae'n bosib i unrhyw un helpu ein casglu arian drwy roi dillad yn ein blwch ailgylchu sydd tu allan i'r Ysgol a thrwy ein loteri wythnosol sy'n cynnig gwobr genedlaethol o £25000 a gwobr fach ar gyfer aelodau Twm o'r Nant. Mae'n bosib cymryd rhan drwy'r linc isod.
www.tinyurl.com/lototwm



Staff a ffrindiau Ysgol Twm o'r Nant ar daith gerdded noddedig

# Welsh Whisperer yn diddanu dysgwyr yng Nghanolfan Iaith Clwyd









Bu'r canwr gwlad poblogaidd, y Welsh Whisperer draw i Ddinbych i ymweld â Chanolfan Iaith Clwyd ddydd Iau 22 o Fehefin.
Cafodd gyfle i weld y casgliadau arbennig yn yr Amgueddfa Gwefr Heb Wifrau cyn ymuno â grŵp o ddysgwyr Cymraeg am baned, sgwrs ac ambell gân.
Trefnwyd y prynhawn ar y cyd rhwng Popeth Cymraeg a Menter Iaith fel rhan o raglen Gŵyl Ganol Haf Dinbych.

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad,
Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue,
Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors

**Emyr Evans** a'i Gwmni Cyf

Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333



Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900




Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

JCB McHale Massey Ferguson Fendt Pottinger

**MALDWYN WILLIAMS**
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542

**GORSAF MOT yn UNIG**



# Gwres a Geiriau

Mae hi heddiw yn ganol Mehefin ac mi rydw i - fel llawer ohonoch chi – wedi cael llond bol ar y tywydd braf ‘ma.
Mae’n gas gen i wres llethol, yr haul anrheuliedig a phob diwrnod yn dilyn yr un patrwm o fore gwyn tan nos.
Rhowch imi dywydd mwy amrywiol a’r math o dymheredd cymedrol y maen nhw’n ei dderbyn yng Ngogledd yr Alban yr adeg hon o’r flwyddyn.
Ond, eto i gyd, fyddwn i ddim yn hoffi gaeafau gwyllt a’r nosweithiau hir y maen nhw’n ei gael yn y rhan honno o’r byd. Diwrnod cymylog a sych ydy fy mharadwys i gyda thymheredd cymedrol.
On’d ydw i fel llawer ohonoch chi yn un anodd i’m plesio?

.......................................................................................

Geiriau ydy’r thema y tro hwn, geiriau sydd efallai yn anghyfarwydd i rai ohonoch sydd yn arfer â gweld geiriau megis llesiant a dichonoldeb yn eich bywyd beunyddiol.
Oddeutu deng mlynedd ar hugain yn ôl roeddwn i’n gwylio gêm bêl-droed leol pan glywais dad yn gweiddi ar ei fab, “Paid â miglo efo’r bêl yn fanna.”
Dyma fi’n troi ato a sylweddoli fy mod i’n ei adnabod o ddyddiau ysgol. Doeddwn i ddim wedi clywed defnydd o’r gair ers y dyddiau hynny.
Dyna oedd y gair yn y dyddiau hynny yng Nghaernarfon a’r cylch am redeg neu ddriblo efo’r bêl. Dydw i ddim wedi clywed Malcolm Allen yn defnyddio’r gair wrth sylwebu. Beth am ei ddefnyddio Malcolm a beirniadu’r chwaraewyr oedd yn euog o figlo yn y man anghywir yn erbyn Armenia?
Gobeithio’n arw ei fod o’n derm a ddefnyddir o hyd gan hogia’ Caernarfon a’r cylch.
`Sgwn i oedd Kate Roberts yn gyfarwydd ag o a hithau yn byw mor agos i gae pêl-droed y dref hon.
Ystyr arall i’r gair ar lawr gwlad oedd “Hel dy draed o’r fan hon” megis yn y dywediad “ Migla hi o ‘ma fab.”
Pan wnes i ddod i Ddyffryn Clwyd gyntaf deuthum yn ymwybodol o air a oedd yn gwbl anghyfarwydd imi, sef crugo.
Plant y wlad yn hytrach na phlant y dref oedd yn defnyddio’r gair fel yn y frawddeg, “Roeddwn i’n crugo fy mod i wedi gadael pethau tan y munud olaf.”
Cymeraf yn ganiataol mai edifar neu ofidio oedd yn gyfystyr â’r gair bach hwn. Tydi o yn air da?
A dyna i chi’r ddau bartner smalio a chogio/cogsio. Defnyddiwn y rhain o hyd am beidio â bod o ddifrif megis, “Paid ag edrych mor ddifrifol. Cogsio ydw i sti.”
A oes angen trosglwyddo geiriau llafar fel hyn i’r genhedlaeth iau? Oes, yn bendant. Byddai’n llawer gwell clywed y rhain na’r “amazin” a “really” a glywn ni mor aml gan sêr y byd adloniant.

**O.N. Maen nhw’n addo glaw yfory. Hwre!**

**Stan Lyall**

# CYNHYRCHWYR TRYDAN I'R WCRÁIN

Ar benwythnos gŵyl banc mis Mai eleni, cychwynnodd llwyth o gynhyrchwyr trydan ar eu taith o Ogledd Cymru i Lviv yn yr Wcráin. Y tro hwn, mae Clwb Rotari Dinbych, ynghyd â Ford Gron Dinbych, wedi casglu'r swm o ddeuddeg o gynhyrchwyr trydan domestig i helpu trigolion yr Wcráin, hun ar ôl anfon saith o gynhyrchwyr trydan arall allan ychydig wythnosau yn ôl gyda chymorth yr Athro Robert a Mrs Paula Sells.
Mae y llwyth mis hwn yn cael eu cludo i’r Wcráin gan aelod o glwb Rotari Dinbych, sef Huw Jones o Jones Bros., Rhuthun, ynghyd â ffermwr o Lanfihangel GM Llyr Jones. Bydd Llyr hefyd yn danfon Landrofer Freelander, tryc Suzuki a threlar Ifor Williams, ynghyd ag eitemau bach eraill, tra bydd Huw hefyd yn danfon Nissan Navara pickup. Bydd eu taith drwy Dover i Calais, Gwlad Belg, Yr Iseldiroedd, yr Almaen a Gwlad Pwyl - taith o 1456 milltir. Yna byddant yn dal awyren adref o Krakow.
Mae Clwb Rotari Dinbych yn ddiolchgar iawn i’r canlynol sydd wedi bod mor garedig â rhoi’r cynhyrchwyr trydan at y fenter yma:
Ford Gron Dinbych
MWS, Rhuthun
Beiciau Modur A & D /Caffi Sam, Dinbych
Woodmen UK
Billy Jenkins, Dinbych
Hywel Watkin, Dinbych

Mae’r Clwb Rotari hefyd yn ddiolchgar iawn i aelodau’r cyhoedd sydd wedi rhoi arian i’w cronfeydd elusen sydd wedi cefnogi’r fenter hon.

Yn y llun isod Ch- Dde mae aelod or clwb Rotari Ifor John Jones, Llyr Jones, Edward Roberts Ford Gron Dinbych, Rotariaid Dilwyn Evans, Robin Williams a Huw Jones ynghyd â’r llwyth o bethau i’r Wcráin.



# Dinbych yn Blodeuo

Dilynwch ni ar
www.denbighinbloom.com

Diwrnod Beirniadu

Bydd beirniad Cymru yn ei Blodau yn dod i feirniadu gwaith Dinbych yn Blodeuo ar brynhawn Gorffennaf 10fed. Bydd yn ymweld â chanol y dref a Temple Bar, yn teithio ar hyd Ffordd Rhuthun at 'Gylchfan yr Ieir' wrth ATS, nôl at Trewen, canol y dref a lluniaeth yn Neuadd y Dref. Ar y ffordd bydd yn sgwrsio efo'r garddwyr gwirfoddol, Wendy o'r Co-op sy wedi bod yn hyrwyddo Potiau i Siopau, staff y Principality sy'n gofalu am y ciosg drwy'r haf a chynrychiolwyr o'r Cyngor Sir sy'n gyfrifol am y strydoedd ac am fioamrywiaeth.

Mae meini prawf y gystadleuaeth wedi newid yn llwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn lle gwobrwyo Garddwriaeth yn unig mae'r pwyslais rŵan wedi ei rannu yn gyfartal gydag Amgylchedd a Chymuned hefyd. Rhaid hyrwyddo bioamrywiaeth a chynaladwyedd ac ystyried lles natur ym mhob gweithgarwch. Rhaid i ni blannu blodau lluosflwydd ar gyfer peillwyr, adfer cynefinoedd, gweithio yn organig, peidio gwastraffu dŵr, compostio, ail-ddefnyddio potiau plastig, ac ati. Rydym yn ffodus iawn i fedru cydweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol ac rydym wrth ein bodd yn cysylltu ag ysgolion.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr ychwanegol sy'n ein cynorthwyo ni i baratoi ar gyfer y Diwrnod Beirniadu – y bobl sy'n peintio, glanhau, sgleinio, chwynnu, codi sbwriel ac ati – ac i'r holl bobl sy'n ein cefnogi ni drwy'r flwyddyn, yn ariannol ac yn ymarferol. Diolch o galon i chi i gyd!

Seremoni Wobrwyo

Yn ystod yr haf bydd y gwaith cynnal a chadw yn dal i barhau, y tocio, y dyfrio a'r chwynnu. Eleni bydd 'na fwy o brysurdeb nag arfer wrth i ni baratoi i groesawu tua 120 o arddwyr o bob cwr o Gymru a swyddogion Cymru yn ei Blodau i Ddinbych i'r Seremoni Wobrwyo genedlaethol ar ddydd Gwener Medi 8fed. Byddant yn treulio'r diwrnod yma, yn cyrraedd Neuadd y Dref i gael paned a bara brith lleol, yn ymweld â gwahanol atyniadau yn y dref ac yn dychwelyd am ginio yn Neuadd y Dref. Bydd y Seremoni yn y prynhawn yng ngofal Cymru yn ei Blodau a Sioned Edwards, 'Garddio a Mwy', fydd yn cyflwyno'r gwobrau.

Unwaith eto, diolch i bawb sy'n ein cynorthwyo ni wrth baratoi am y diwrnod arbennig hwn!

Prosiect y Parc

Mae 'na lawer o waith clirio a thacluso a phlannu wedi bod yn digwydd ym Mharc Isaf ers tro. (Gyda llaw, oes unrhyw un yn gwybod sut mae cael gwared â drain sy wedi gwreiddio yn ddwfn, os gwelwch yn dda?) Gobeithio bydd dwy fainc newydd 'na ellir eu fandaleiddio', yn cael eu gosod yn lle'r ddwy a ddifrodwyd, yn ogystal â phump arall sy wedi cael eu harchebu ar gyfer defnydd y gymuned. Yn 2024, rydym yn gobeithio cychwyn ar 'Brosiect y Parc' mewn cydweithrediad â grwpiau cymunedol lleol, i drio codi safon y Parc i safon Aur. Os oes gennych chi ddiddordeb yn y gwaith hwn, cysylltwch, os gwelwch yn dda.

# HELBULON LLADD GWAIR





Rwyf bob tro'n edrych ymlaen at ddarllen cyfraniadau misol Stan Lyall, Victor Meldrew'r "Bigwn", a doedd ei erthygl yn rhifyn mis Mehefin ddim yn fy siomi. Er hynny, roeddwn i'n difaru nad oeddwn wedi cyhoeddi fy erthygl fy hun ar "Mai Di-dor" yn y rhifyn blaenorol. Efallai mai mabwysiadu egwyddorion "Mai Di-dor" ydy'r ateb, Stan, yn hytrach na straffaglu efo peiriant torri gwair anystywallt. Neu beth am wneud beth mae'r cylchgrawn dychanol "Private Eye" wedi awgrymu mewn cartŵn diweddar, a dwi'n ymddiheuro am ddyfynnu yn yr iaith wreiddiol, sef "*No Mow May, Still Too Soon June, Why Even Try July, Can't be Fussed August ...*" ayyb?

Mae posibilrwydd arall, sef mynd un cam ymhellach a chael gwared o dy lawntiau – tri ohonyn nhw os dwi'n cofio'n iawn – a gosod lawntiau plastig cyn i Lywodraeth Cymru symud ymlaen a'u gwahardd. Hollol anghyfrifol ac anghymdeithasol wrth gwrs, ac yn groes i bob egwyddor amgylcheddol, ond efallai fod hyn yn werth ei ystyried?

Ond i fod o ddifri am ychydig, mi wnes i addo adrodd yn ôl ar fy ymdrechion i gadw at Mai Di-dor. Wel, dwi wedi llwyddo i wneud hyn, a dydwi ddim wedi torri'r glaswellt ar fy hirsgwar bach i ers dechrau Mai, ond cymysg ydy'r canlyniadau. Mae gen i ddigonedd o flodau a gweiriau gwyllt yn tyfu, ond does dim mymryn o liw na blodau i ddenu'r pryfed peillio fel gwenyn ac ieir fach yr haf, er iddyn nhw heidio i fannau eraill yn yr ardd. Felly dwi ddim yn siwr 'mod i am barhau gyda'r arbrawf, yn enwedig gan fod rhai o'r teulu estynedig yn dioddef o glefyd y gwair. Gawn ni weld!

Ond rwyf wedi darganfod un fantais o wneud hyn. Yn wahanol iawn i'n borderi blodau, hyd yn hyn dydy holl gathod y fro ddim wedi bod yn defnyddio'r stribyn di-dor fel lle chwech – diolch i'r drefn!

*John Davies*

## Gŵyl Ganol Haf Dinbych

**(gweler lluniau tudalennau cefn)**

Ar brynhawn Mawrth, 20fed Mehefin trefnwyd sesiwn flasu rygbi yng Nghlwb Rygbi Dinbych i ddathlu Gwŷl Ganol Haf Dinbych. Cafodd pawb hwyl yn y sesiwn, a braf oedd gweld wynebau newydd yn rhoi cynnig ar chwarae rygbi, gobeithio y byddan yn ymuno â'r clwb tymor nesaf. Os hoffech chi ymuno fel chwaraewr Clwb Rygbi Dinbych tymor 23-24, cysylltwch â'n gwefannau cymdeithasol - Clwb Rygbi Dinbych neu e-bostiwch aevans@denbighhighschool.co.uk

## Carnifal Dinbych

Mae Clwb Rygbi Dinbych yn ymfalchïo ein bod yn rhan o 'Galon y Gymuned' ac oherwydd hyn, roeddem yn gyffrous iawn i fod yn rhan o Orymdaith a Charnifal Dinbych ar y 24ain o Fehefin.
Cawsom ddiwrnod i'w gofio, braf oedd gweld cymaint o chwaraewyr, hyfforddwyr, aelodau a chefnogwyr CRD yn cefnogi'r digwyddiad

Diolch i bwyllgor Calon y Gymuned Clwb Rygbi Dinbych am drefnu'r stondin, i'r gwirfoddolwyr ar y stondin ac i'r Timau Iau, hyfforddwyr a rhieni am fod yn rhan o'r orymdaith.

Hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i Bwyllgor y Carnifal am eu trefniadau trylwyr a threfnus, ac am drefnu diwrnod llwyddiannus i drigolion Dinbych.

**Cyfle i noddi Clwb Rygbi Dinbych tymor nesaf**
Nod Clwb Rygbi Dinbych yw darparu lle gwych i chwarae a mwynhau rygbi a bod yng nghalon y gymuned leol. Mae cefnogaeth y gymuned fusnes leol yn hanfodol i Glwb Rygbi Dinbych. Mae'n ein helpu i ddarparu'r cit, yr offer a'r cyfleusterau sy'n ofynnol gan ein cannoedd o aelodau sy'n cynrychioli ac yn cefnogi ein clwb. Mae ein pecynnau noddi amrywiol yn cynnig gwerth aruthrol. Maen nhw'n rhoi cyfle i chi hyrwyddo'ch busnes i'r nifer fawr o bobl o bob rhan o Ogledd Cymru sy'n dod i gefnogi ein timau yn ogystal â thimau sy'n ymweld, neu sy'n pasio trwy'r clwb yn ystod digwyddiadau, partïon, cyfarfodydd a llawer o ddigwyddiadau cymdeithasol eraill a gynhelir yn ein lleoliad. Hefyd, wrth gwrs, mae'r bonws ychwanegol o gynnwys tocynnau i gemau Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad mewn sawl un o'n pecynnau!
Sganiwch y cod QR i ddarllen bwcled noddi CRD, neu e-bostiwch ***esinedharris@googlemail.com*** am fwy o wybodaeth.

Diolch yn fawr, David Haydock - Cadeirydd

## Noson Wobrwyo Diwedd Tymor

Dathlwyd tymor arbennig Clwb Pêl-droed Dinbych yn ddiweddar gyda noson wobrwyo'r Clwb yng Nghlwb Rygbi Dinbych.
Wedi i'r Tîm Cyntaf ennill y dwbl gan ddod yn bencampwyr Cynghrair Ardal Gogledd Orllewin Lockstock a Chwpan Ardal Gogledd Cynghrair Lockstock, roedd mwy nag un rheswm i ddathlu.
Croesawyd dros gant o bobl yn y gynulleidfa i'r digwyddiad gan John Sellers, a rhoddodd Cadeirydd y Clwb Shon Powell araith yn llongyfarch pawb oedd yn rhan o'r Clwb wedi tymor mor llwyddiannus.
Cafodd rheolwr y Tîm Cyntaf, Dewi Llion, a rheolwr yr Ail Dîm, Liam Nash eu cyfweld gan Tomi (Caws) Lewis, sy'n 'seleb' lleol ar gyfryngau cymdeithasol.
Gofynnodd y Clwb i Ollie Williams wneud rhaglen ddogfen ar y Clwb dros y misoedd diwethaf a dangosodd raghysbyseb o'r rhaglen. Cafodd y rhaglen gyntaf o ddwy ei ryddhau ar YouTube ar Fehefin 23ain. Gallwch gael mynediad i'r rhaglen i'w gwylio ar wefan, Twitter a Facebook y Clwb neu drwy YouTube.
Cyflwynodd Llywydd y Clwb, Clwyd Williams, wobrau'r noson:
Tîm 1af - Chwaraewr y Rheolwr – Aaron Jones (gôl-geidwad)
Tîm 1af – Sgoriwr Uchaf – Nathan Brown (30 gôl)
Tîm 1af - Chwaraewr y Chwaraewyr – Keiron Roberts
Tîm 1af - Chwaraewr y Cefnogwyr - Sion Jones
2il Dîm - Chwaraewr y Rheolwr – Josh Griffiths
2il Dîm – Sgorwyr Uchaf – Harvey Bennett
2il Dîm - Chwaraewr y Chwaraewyr – Josh Griffiths
Chwaraewr Ifanc y Clwb – Dan Parry-Jones
Person y Clwb am y tymor – Iwan Jones (Trysorydd y Clwb)
Gwobr Salver am ymroddiad arbennig i'r Clwb - Roy Gunther (Ffotograffydd y Clwb)
Wedi dyrchafiad i Gynghrair Gogledd Cymru, bydd tymor newydd y Tîm Cyntaf yn dechrau Gorffennaf 29ain gyda thrip oddi cartref i Fflint Utd.
Bydd eu gêm gartref cyntaf nos Fawrth Awst 8fed yn erbyn CPD Caersws – tîm a gafodd hefyd ddyrchafiad yn ystod y tymor yma o Gynghrair Ardal Gogledd Ddwyrain Lock Stock. (**Lluniau ar y dudalen gefn**)



# Clwb Rygbi Dinbych

## Carnifal Dinbych




Ela Jones (aelod o'r pwyllgor 'Calon y Gymuned') yn barod i groesawu ymwelwyr i stondin CRD




Chwaraewyr iau CRD yn mwynhau tynnu llun yn ffrâm 'hunan-lun' CRD



Amser i ymlacio a lliwio ar ôl prysurdeb y Carnifal




Chwaraewyr iau CRD yn ymweld â'r stondin ar ôl cerdded yn yr orymdaith.




Cadeirydd ein Clwb – David Haydock a Sam Jones(aelod o'r pwyllgor 'Calon y Gymuned') ar stondin CRD



Gorymdaith y carnifal



# Clwb Pêl-droed Dinbych


Llywydd y Clwb, Clwyd Williams yn cyflwyno gwobr Chwaraewr y Cefnogwyr Sion Jones


Josh Griffiths, enillydd gwobrau Chwaraewr y Chwaraewyr yr Ail Dîm a Chwaraewr y Rheolwyr Ail Dîm.


Gwobr Chwaraewr Ifanc y Clwb i Dan Parry-Jones


Rheolwr y Tîm 1af Dewi Llion Jones yn cyflwyno gwobr Chwaraewr y Rheolwr i'r gôl-geidwad Aaron Jones.

Graeme Decke (hyfforddwr timau iau CRD) yn paratoi'r Barbeciw




Dysgu sgiliau newydd rygbi


Pawb wedi mwynhau ar ôl sesiwn flasu rygbi